

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



Rhifyn 328 - 60c
Tachwedd 2014

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Diwrnod 'Shwmae' yn Llambod



Tudalen 7

Cadwyn y Cyfrinachau



Tudalen 25

Eisteddfodau C.Ff.I. y ddwy sir



Tudalen 5, 9, 18 i 28



Lois Price, C.Ff.I. Cwmann a ddaeth yn ail am osod blodau yn Sioe NFYFC yn Malvern yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr ar ganlyniad arbennig Lois.

Bro ddiwyd



Blwyddyn lwyddiannus arall i Dreialon Cŵn Defaid a Sioe Cwmsychbant. Gwnaed elw o dros £5,000 sydd yn swm anhygoel i sioe fach wledig. Yn ystod eu cinio blyneddol yng Ngwesty'r Grannell, Llanwnnen cyflwynodd Llywydd y Sioe Mrs May Lewis, Llambod sic o £5,000 i Ros Jones, cynrychiolydd Ambwlans Awyr Cymru.

Yn y llun gyda nhw (o'r chwith) mae: Sian Jones, Ysgrifennydd; Carys Davies, Trysorydd; Ros Jones; Hefin Jenkins, Cadeirydd; May Lewis a Wendy Jenkins, Ysgrifennydd.



I nodi ei phen-blwydd yn 50 penderfynodd Teleri Pencoed/Hendai, Cwmann herio'i hun er cof am ei mam, Jenny, a fu farw o ganser y pancreas ugain mlynedd yn ôl yn 50 oed a cherdded o Fachynlleth i'r gororau. Ar fore prydferth o fis Fehefin am 3.30 wrth iddi wawrio fe ddechreuodd un ar bymtheg o deulu a ffrindiau Teleri a'i brawd Wyn y daith hir. Roedd y golygfeydd yn anhygoel a'r bobol yn groesawgar.

Roedd yn brofiad ac yn sialens fythgofiadwy a gorffennodd pawb erbyn 8 yr hwyr – blisters oedd y broblem fwyaf.

Codwyd £7,575.00 at elusen Amser Justin Time. Cafodd yr elusen hon ei sefydlu gan Shân Cothi ar ôl iddi golli ei gŵr yn ifanc iawn o ganser y pancreas. Yn y llun gwelir y sic yn cael ei derbyn gan Joan a Elgan, mam a brawd Shân. Hoffa Teleri a Wyn ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at yr achos, yn enwedig i gwmni Hanson am eu rhodd o £1,000.00.

Côr Cwmann a'r Cylch



Dathlu hanner canmlwyddiant Côr Meibion Cwmann a'r Cylch yn Neuadd Sant Iago yn ddiweddar gyda'r côr ar y llwyfan yn ystod y noson dan arweiniad Elonwy Davies gydag Elonwy Pugh-Huyhsman yn cyfeilio. Hefyd yn ystod y noson lansiwyd llyfr o hanes y côr, 'Cofio'r Hanner Canrif'.



Wedi lansio'r llyfr cyflwynodd Cyril Davies, Cadeirydd y Côr gopi o'r llyfr i Alun Jones, Is-olygydd y llyfr. Gyda nhw yn y llun mae tri mab y golygydd, y diweddar Arthur Roderick, Hywel, Alun a Heulyn.



Roedd y llyfr 'Cofio'r Hanner Canrif' wedi ei olygu gan y diweddar Arthur Roderick. Cyflwynodd Cyril Davies gopi o'r llyfr i'w weddw Dilwen Roderick.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Brecs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aiffeddiannu am eich cartref.



www.facebook.com/clonc



@Clonc360

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Trydarodd
@Clonc360
Hydref 19

Cymaint o uchafbwyntiau
#steddfodcffiisgar
neithiwr. **@cffiisgar**

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@ShwmaeSumae
Hydref 16

#Shwmaesumae
Llambled. Diolch Dinah,
Ann a'r criw yn y
Cyngor Dre.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@LampeterLadies
Hydref 14

Sesiwn wych heno,
diolch i
@SionedHarries

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
@Clonc360
Hydref 12

Canu da yng Nghapel
Soar heno
@CorCwmann

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
@Clonc360
Hydref 10

Band offer cegin Yr
Angor yn Eisteddfod
Paprau Bro.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@BBRadioCymru
Medi 30

Dewi o Lanllwni yn
ennill Taro Tarw
@TOMMORADIO

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Tachwedd a Rhagfyr Elaine Davies, Penynant, Llanwnnen 480526
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol Elaine Davies, Dylan Lewis,
Marian Morgan a Delyth Morgans Phillips

Dylunydd y mis Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349

Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590

e-bost: bedwyr@btopenworld.com

Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001

Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922

Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015

Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies

Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507

Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238

Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856

Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407

Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynon 493325

Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218

Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239

Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257

Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk

Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855

Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015

Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644

Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwy i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu e-bostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu lluniau plant i'w cynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Newid

Mae tymor y cyrddau diolchgarwch wedi pasio eleni eto. Mae'r dail wedi crino ac yn prysur gwympo, mae'r clociau wedi'u troi'n ôl awr tan y gwanwyn, ac mae'r dydd yn byrhau bob yn dipyn. Wedi haf a dechrau hydref rhagorol o ran tywydd eleni, mae'r newid yn y gwynt a'r sicrwydd taw'r gaeaf sydd o'n blaenau yn fwy real nac erioed o bosib, ac mae'n ymdrech fawr i ni (wel, rhai ohonom p'r un bynnag!) dderbyn y newid hwnnw.

A sôn am newid, mae'n beth rhyfedd mor amharod yw rhai ohonom i addasu ac ymgynffwrdd ag amodau neu sefyllfaoedd newydd. Rwy'n cyfaddef fy hun fy mod i'n licio bod yn gyfforddus ac yn ddiogel yn y cylchoedd bychain sy'n bodoli yn fy myd bach i. Mae tuedd o bosib i ni fel bodau dynol fod ag ofn newid. Ond diolch bod y Cymry sydd wedi bod yma o'n blaenau ni wedi bod yn barod i herio, gwrthio ffiniau a mentro. Heb hynny, sut fyddai hi arnom fel cenedl? A fyddem ni'n siarad Cymraeg heddiw? Ac os hynny, pa fath o Gymraeg? A fyddem yn dal i ddioddef dirmyg a gwawd, yn cael ein cosbi am siarad ein mamiaith? A fyddem yn ddinasyddion eilradd yn ein gwlad ein hunain? Sut olwg fyddai ar ein cenedl yn ysbrydol? A fyddem yn dal i dalu arian i bwrs Eglwys Loegr? Mae meddwl am gwestiynau tebyg i'r rhain yn dangos mor ddygn mae rhai drwy'r oesoedd wedi bod yn barod i herio'r drefn a pharatoi at newid yn ein hanes - ein hanes ieithyddol, diwylliannol a Christnogol.

Yma'n lleol, mae 'na Gymry sy'n dal i arwain a llywio mewn cyfnodau o newid. Efallai ei bod hi'n hydref, os nad yn aeaf, mewn ambell faes, ond diolch am y rhai sydd â'r hyder a'r mentergarwch i weithio'n ddygn i sicrhau fod 'na wanwyn i ddod.

Cloncen

Sion a Siân yn dathlu'r 50!

Eleni mae'r cwis poblogaidd Sion a Siân yn dathlu'r 50.

Pan gafodd Dylan Jones sgwrs yn ddiweddar ar ei raglen radio gyda dau o'r cyflwynwyr mwyaf poblogaidd, Dai Jones & Jenni Ogwen, cymaint fu'r ymateb nes ein bod wedi penderfynu ail greu'r wefr am un noson a recordio rhifyn arbennig ar gyfer S4C y Nadolig hwn.



Bydd y rhaglen yn cael ei recordio ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid ar nos Iau Rhagfyr 4ydd am 7 o'r gloch o flaen cynulleidfâ.

Rydym yn chwilio am 3 phâr sydd wedi cystadlu o'r blaen ac sydd â ffansi dod yn ôl er mwyn ail greu talp o hanes darlledu yng Nghymru - yn ddelfrydol paru ar draws gwahanol ddegawdau, er enghraifft y 70au, 80au a'r 90au.

- Oes gennych chi ffansi ail fyw eich ieuencid ffôl?
- Oes gennych chi straeon neu atgofion arbennig am y gyfres?
- Oes gennych chi blât/llwy garu/cwpan Sion a Siân ar eich dreser neu yn yr atig?
- Ydych chi ffansi ymuno yn yr hwyl a bod yn rhan o'r gynulleidfâ?

Os mai ie ydi'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau uchod, yna cysylltwch â ITV Cymru ar y rhif isod a bydd un o'r tîm yn cysylltu gyda chi am sgwrs bellach

0844 881 0266



Dydd Apêl Plant Mewn Anghen

Dydd Gwener Tachwedd 14eg

Bydd y tîm yng Nghapel Sant Thomas Llanbed o 9.30yb tan 6yh i dderbyn eich cyfraniadau.



Ydych chi wedi penderfynu peidio â danfon cardiau Nadolig eleni? Stampiau'n rhy ddrud? Teimlo fel rhoi cyfraniad tuag at achos da yn lle hynny?

Cyfarchion Nadolig

Gan ddymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl deula, ffrindiau a chymdogion.
John a June, Maesteg, Cwmann

Cyfarchion yr Ŵyl i'm ffrindiau, cymdogion a chydabod a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.
Oddiwrth: Eryl a'r teulu, Gerlan, Llanbed.

Beth am roi cyfarchion Nadolig i'ch ffrindiau a'ch teulu mewn blwch bach gydag addurniadau yn rhifyn Rhagfyr Clonc.

Dim ond cyfraniad (isafswm o £5 os gwelwch yn dda) am flwch o hyd at 100 o eiriau.



TACHWEDD

- 5 Tân Gwylt Llambled, wedi'i drefnu gan y Ford Gron.
- 5 Swper dathlu 70 Cymdeithas Chwiorydd Aberduar yn Festri Aberduar, am 7.00y.h.
- 7 Cinio Dathlu 25ain Pwyllgor R.A.B.I. Ceredigion yn Tŷ Glyn, 7 ar gyfer 7.30y.h. Tocynnau £20 oddi wrth Steve Hunt 01545 580233, neu Linda Jones 01559 364850.
- 8 Marchnad y Bobl Neuadd Fictoria, Llanbed rhwng 10yb ac 1yp.
- 8 Clwb Sinema Magic Lamp yn cyflwyno 'The Fault in Our Stars' 5yp a 'Chef' 8yh yn Neuadd Fictoria, Llanbed.
- 10 Cinio Blynnyddol Merched y Wawr Llanbed yn Llain y Castell.
- 10 Cyfarfod Cyhoeddus i drafod cyllideb y cyngor yn Neuadd Ysgol Bro Pedr am 6.30yh.
- 11 Cangen Llanybydder, Cymdeithas Diabetes UK Cymru yn cynnal noson yng nghwmni James Lloyd 'Super Jim' yn Festri Aberduar am 7.30y.h.
- 11 Cyfarfod Blynnyddol Ffair Fwyd Llambled yn Neuadd Fictoria, Llanbed 7.30yh.
- 11 Hyfforddiant defnyddio facebook Clonc360 yn swyddfa Golwg Llanbed am 4 o'r gloch.
- 14 Cynhelir Cinio Blynnyddol Sioe Llambled yng Ngholeg Prifysgol Llanbed. Cost y ginio fydd £20 y pen, cysylltwch â Ioan Williams ar 422 370 i archebu tocyn.
- 14 Sesiwn rhoi Gwaed yn Neuadd Celfyddydau Llanbed 10.30-1.30 a 3.00-6.30.
- 14 Ffilm 'Belle' yn Neuadd Mileniwm Cellan am 7.45yh.
- 15 Eisteddfod C.F.F.I. Cymru ym Mhafiliwn Bont.
- 15 Plaid Cymru Llambled a'r cylch yn cyflwyno 'Noson yng nghwmni 'BRIGYN' yn Festri Brondeifi am 7.00y.h. Tocynnau gan Ann Morgan 422413. Dewch i fwynhau!
- 15 Clwb Sinema Magic Lamp yn cyflwyno 'X-Men' 5yp a 'The Hobbit' 8yh yn Neuadd Fictoria, Llanbed.
- 18 Cyfarfod Aelwyd yr Urdd 7.00y.h. hyd 8.15y.h.
- 18 Peter Mitchell yn siarad yng nghyfarfod Cymdeithas Hanes Llambled yn Llyfrgell Roderick Bowen, Prifysgol y Drindod Dewi Sant am 7.30y.h.
- 19 James Lloyd yn rhoi sgwrs am hanes ardal Gorsgoch yn Cefnhafod gyda Cyngrhair Cymuned Ward Llanwenog.
- 20 Oedfa Eciwmenaidd yn Noddfa am 7.00y.h.
- 21 Parti 'Tupperware' yn Festri Capel y Cwm, Cwmsychpant am 7.30y.h.
- 22 Marchnad y Bobl Neuadd Fictoria, Llanbed rhwng 10yb ac 1yp.
- 23 Oedfa Sul yr Urdd am 5.00y.p. ym Mrondeifi, Llambled.
- 25 Ysgol Feithrin Llanybydder yn cynnal noson bingo yn y clwb rygbi am 8.00y.h.
- 28 Ffair Grefftiau Flynyddol Pumsaint o 2.00y.p - 6y.h er budd Cancr y Fron Cymru.
- 28 Ffilm 'The Fault in Our Stars' yn Neuadd Mileniwm Cellan am 7.45yh.
- 29 Arwerthiant Blynnyddol Seion, Cwrtnewydd am 3.00y.p. Croeso cynnes i bawb.
- 29 Ffair Grefftiau Flynyddol Pumsaint o 10.00y.b. - 4.00y.p. er budd Cancr y Fron Cymru.
- 29 Ffair Nadolig yn Neuadd y Celfyddydau Prifysgol y Drindod Dewi Sant Llanbed rhwng 12 a 4yp.

RHAGFYR

- 1 Cynhelir Plygain Traddodiadol am 7.00y.h. yng Nghapel y Coleg, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Croeso i bawb.
- 6 Ffair Nadolig yn Ysgol Llanllwni am 10.00y.b. Trefnir gan Cylch Meithrin Llanllwni ac Ysgol Eglwys Llanllwni.
- 6 Cinio Sioe Gorsgoch a C.F.F.I. Llanwenog 7:30yh yng Nghewn Hafod. £16 y pen, enwau i Cerys 07791306761 neu Cefn Hafod erbyn 30 Tachwedd.
- 7 Cynhelir Cymanfa Garolau yng Nghapel Horeb ger Llandysul am 7.30y.h. Artistiaid: Lleisiau Bro Eirwyn a Bois y Gilfach.
- 7 Cyngerdd Nadolig yn Eglwys Sant Iago, Cwmam am 6.00y.h. Artistiaid - Côr Seingar o Gaerfyrddin ac artistiaid lleol.
- 9 Coginio gyda Rhonwen Thomas yn Merched y Wawr Llanbed am 7.30yh.
- 9 Noson o garolau ac eitemau Nadoligaidd yn neuadd Ysgol Cwrtnewydd am 7.00y.h.
- 9 Hyfforddiant gwefan Clonc360. Lleoliad i'w gadarnhau.
- 9 Clare Hammond y pianydd yn perfformio gyda Chymdeithas Cerdd Llanbed yn Neuadd y Celfyddydau am 7.30y.h.

Clwb Clonc

Tachwedd 2014

£25 rhif 92 :

Mrs Beryl Davies,
Aweldeg, Heol Cambrian,
Llambled.

£20 rhif 99 :

Ifan Teifi Davies,
Llyshelyg, Rhodfa Glynhebog,
Llambled.

£15 rhif 503 :

Ruthie Williams,
Rhiwlas, Cwmam.

£10 rhif 411 :

Russell a Betty Prytherch,
Tyngrug, Llanllwni.

£10 rhif 519 :

Mrs Margaret Wilson,
Brynsiriol, Alltyblaca.

£10 rhif 245 :

Mrs Megan Jones,
Rhandir, Cwmsychpant.

£5 rhif 290 :

Mrs Shan Jones,
Glynrhosyn, Heol-y-Bont,
Llambled.

Gorsgoch

Dyddiad i'w gofio

Cynhelir Cinio Blynnyddol Sioe Gorsgoch a C.F.F.I. Llanwenog nos Sadwrn 6ed o Ragfyr 2014 am 7:30yh yng Nghewn Hafod. £16 y pen, enwau i Cerys 07791 306761 neu Cefn Hafod erbyn 30 Tachwedd.

Gartref yn gwella

Hyfryd yw gweld Dannie Davies gartref yn Llaingors ac yn gwella yn foddhaol yn dilyn ei arhosiad yn yr ysbyty.

Cydymdeimlo

Danfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Gareth, Wendy ac Iwan Evans, Parc y Rhos yn dilyn marwolaeth eu hewythr / hen ewythr, Glanville Williams o Bontsian.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Geraint Hatcher, Cefnhafod ar gael ei ddewis yn Llywydd ar Glybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion. Bu Geraint yn aelod brwdfrydig yn C.F.F.I. Pontsian ac erbyn hyn yn arweinydd ar G.F.F.I. Llanwenog. Dymuniadau da i chi yn ystod y flwyddyn.

Ar y teledu

Yn ystod wythnos hanner tymor gwelwyd Gwawr Hatcher, Cefnhafod yn siarad ar raglen Prynhawn Da gyda Mari Grug yn sôn am ei hoff bethau. Roedd hyn yn cynnwys Bathodyn Swyddog Ysgol Bro Pedr; Cadwyn Aelod Iau C.F.F.I. Ceredigion ac hefyd Crys Tafarn Cefnhafod.

TEIARS
HUW
LEWIS
TYRES

HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llanybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

Darparu gatiâu a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

Mwnci ffwnci

Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a **Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambled
☎01570 423135
☎07811917799 /
07968821035
✉mwnciffwnci@hotmail.com

Gwasanaethau Coed
Teifi
Tree Services

Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfnbris am ddim
Coed tân ar werth
Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion
Glanrwyth, Pumsaint,
Ffôn: 01558 650209 a 650451,
Ffacs: 01558 650440

Masnachwyr coed
a nwyddau adeiladu
a ffensiô o bob math
Glo caled a glo meddal
o'r ansawdd gorau

Alltyblaca



Ar 6ed o Fedi cafwyd prynhawn arbennig o Gaws a Gwin gyda Mrs Sara Humphreys-Jones yn Frongelli, Alltyblaca at Ymddiriedolaeth Elusen Hywel Dda at Gancr yn Glangwili. Gwnaethpwyd elw o £2,230 at yr elusen. Llywydd y dydd oedd Cyng. Ieuan Davies.

Yn y llun [chwith i'r dde] mae Mrs Sian-Marie James, Is-Gadeirydd Hywel Dda; Mrs Ann Davies, Trysorydd y dydd, Mrs Sara Humphreys-Jones; Mr Brendan O'Riordan, Llawfeddyg Ymgynghorol; Cyng. Ieuan Davies, Llywydd; Mrs Jennie Bracher, Ysgrifenyddes y dydd.

Dymuna Sara a Teifi ddiolch yn fawr i bawb a fuodd yn helpu ar y diwrnod ac yn enwedig i Evans Bros, Llanybydder a'r staff am eu cefnogaeth bob amser.

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyyo cyflawn ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Hefyd yn Ystafell Weini newydd **Clwb Rygbi Llambod** yn gwneud:

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 3.00
- Partion pen-blwydd ayb
- Ciniawau - Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd - Te Angladdau

Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach.



Lifft cyfleus nawr yn ei le i fynd lan llofft

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:
Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.



Endaf Griffiths, C.Ff.I. Dyffryn Cothi yn ennill y gadair yn Eisteddfod CFfI Sir Gâr. Yn y llun mae Elin Davies, Cadeirydd y Sir a oedd yn rhoi'r gadair.



Parti Llefaru - 1af C.Ff.I. Llanllwni yn Eisteddfod C.Ff.I. Sir Gâr.

Eisteddfod Sir Gâr



Manon Williams CFfI Cwmann yn cipio'r ail wobwr am waith Celf yn Eisteddfod CFfI Sir Gâr.



Beca Jones ac Elan Jones, CFfI Cwmann yn 2il yn y ddeuawd dan 26, Elan yn 1af yn Llefaru dan 16 a Beca yn 3ydd yn Unawd dan 16 yn yr Eisteddfod.




Lois Thomas, C.Ff.I. Llanllwni yn ennill Unawd dan 16 oed yn Eisteddfod CFfI Sir Gâr.



Meimio i Gerddoriaeth - 1af C.Ff.I. Llanllwni yn Eisteddfod C.Ff.I. Sir Gâr.

Ehangu Gorwelion

Mewn cyfarfod arbennig ym mhobell yr Eglwys yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr eleni, fe lansiwyd llyfr gwerthfawr iawn gan y Parch Wyn Vittle – 'Ehangu Gorwelion'. Yn y gyfrol ceir hanes Cymorth Cristnogol yng Nghymru gan un a fu'n Ysgrifennydd yr elusen yn ein gwlad am gyfanswm o ddeunaw mlynedd hyd at 1990.



Pwyllgor gweithgar Cymorth Cristnogol Llambled yn cyfarfod yn Frondolau, Pentrebach yn y flwyddyn 2000. Yn y llun mae'r Parch Dewi Lloyd Lewis ac un o weithwyr tramor Cymorth Cristnogol.

Mae yna arwyddocâd i'r teitl sef englyn Dewi Emrys 'Y Gorwel' gan i Wynn weld y gorwel yn ddyddiol o'i gartref ym Mhencaer, Sir Benfro. Aeth ati i ehangu gorwelion trwy ei waith diflino gyda Cymorth Cristnogol.

Ar nodyn lleol, mae yna lun o Mrs Hazel Davies a Mrs Irene Williams, y ddwy wedi cyfrannu dros 25 mlynedd at yr elusen bwysig yma. Ewch ati i'w phrynu – mae yn gyfrol rhagorol o waith Cymorth Cristnogol yng Nghymru gan awdur a brofodd erchylltra apartheid yn Ne Affrica a gweld yr annhegwch a'r tlodi sydd yn perthyn i'n byd creulon ni.

Medrir cysylltu â Swyddfa Cymorth Cristnogol yng Nghaerfyrddin neu ddanfon e-bost: caerfyrddin@cymorth-cristnogol.org neu ffonio Twynog Davies, 01570 422880.



Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.


Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW

Sgwar Y Mart, Llanybydder,
Sir Gaerfyrddin SA40 9UE

Swyddfa: 01570 481208
Carys Davies: 07890 883346
Gwion James: 07980 608337

www.fuwinsurance.co.uk
Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y "Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 615251.

Gwersi Gitar:

Hafod Wen, Pwllswyddog,
Tregaron, SY25 6JG.

Tiwtor: Gerald Morgan, Tregaron
geraldmorganguitar@hotmail.co.uk
www.geraldmorganguitar.co.uk



YOUTUBE
Gwersi Gitar Cymraeg
Caneuon Rygbi
Gitar i'r Cristion

01974 299367

Eisteddfod Ddwl Papurau Bro Ceredigion

Cynhaliwyd Eisteddfod Ddwl Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felinfach nos Wener 10fed Hydref a chriw Papur Bro Clonc oedd yn trefnu gyda chymorth Cered. Arweinydd y noson oedd Gethin Morgan, Cwmann - Prif Fachgen Ysgol Bro Pedr a'r beirniaid oedd Dylan Iorwerth ac Elaine Davies.

Cafwyd llawer o hwyl ar y noson gan gynnwys toriad trydan a ychwanegodd at y naws. Seren Papur Bro Clonc oedd Lena Daniel, Cellan a enillodd gystadleuaeth Dweud Stori Ddoniol. Llonyfarchiadau iddi.

Ar ddiwedd y noson, Papur Bro Yr Angor enillodd darian Y Lolfa am y nifer fwyaf o farciau ym mhob cystadleuaeth. Da iawn wir. 2il Y Gambo, 3ydd Clonc, 4ydd Y Tincer, 5ed Llais Aeron, 6ed Y Ddolen.



O'r Cynulliad gan Elin Jones AC

Mae cyhoeddi adolygiad Marcus Longley am wasanaethau iechyd yn y Canolbarth yn ddatblygiad pwysig iawn i bawb ohonom sydd wedi ymgyrchu dros wasanaethau iechyd yng Ngheredigion.

Comisiynwyd yr adroddiad gan y Gweinidog Iechyd yn dilyn cyfarfod a gefais gydag ef a meddygon o Fronglais a'r dalgylch, ac rwy'n falch ei fod yn cydnabod anghenion arbennig Cymru wledig.

Yn bennaf, gweledigaeth yr adroddiad yw gosod Bronglais a Cheredigion wrth galon penderfyniadau am ddyfodol iechyd, trwy gydweithio agosach rhwng byrddau iechyd a darparwyr cynradd. Yn rhy aml, bu'n hardal ni ar y cyron.

Rwy'n siŵr fod brwydrau'n dal i fod o'n blaenau, ond mae casgliadau'r Athro Longley am yr angen i adeiladu gwasanaethau cynaliadwy yn lleol, i adfer ymddiriedaeth rhwng y cyhoedd a phenaethiaid iechyd, ac i gwrdd â'r sialensiau sy'n wynebu gofal iechyd cynradd i gyd yn gadarnhaol. Bydd croeso gan gleifion ac ymgyrchwyr i'r hyn sydd ganddo i'w ddweud am rai gwasanaethau a fu dan fygythiad, megis triniaeth y galon.

Mae'r Gweinidog Iechyd eisoes wedi dweud y bydd yn edrych am weithredu di-oed ar rai o'r argymhellion, ac edrychaf ymlaen at gydweithio i geisio troi'r weledigaeth yn realiti.

Gweledigaeth arall sy'n sicr yn werth ei chefnogi yw'r syniad o adfer cysylltiad rheilffordd rhwng Aberystwyth, Tregaron, Llanbed a Chaerfyrddin. Rwy'n falch fod y Prif Weinidog, wrth ymateb i gwestiwn gen i mewn sesiwn drafod yn Hendy-Gwyn-ar-Dâf, wedi dweud ei fod yn rhannu'r weledigaeth, ac yn gweld y manteision a fyddai'n dod i gymunedau ar hyd y lein arfaethedig. Rwy hefyd wedi bod yn pwyso ar fater Gorsaf Bow Street, a byddaf yn parhau i weithio dros y prosiectau yma ar bob cyfle.


COMPASS OFFICE SUPPLIES

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llambled, Heol Tregaron,
Llambled.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

Cludfwyd Indiaidd NEHAR



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

15% o ostyngiad
ar archebion dros £10.00.

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o
weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambled
☎ 01570 422893 / 422175

CANOLFAN ADDURNO

AA A

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerau, Polion a thraciau lleni,
gwasanaeth torri allweddi a
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156



Miss Ting yn ymweld â'r dosbarth meithrin ym Mro Pedr a'r disgyblion yn cael cyfle i ymarfer defnyddio chopsticks.



Disgyblion blwyddyn 6 Ysgol Bro Pedr yn mynychu gweithdy cyf-lythrennu ac yn ymweld â Sied Dylan Thomas.



Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch yr Adran Iau a diolch yn fawr i Mr Patterson a Sarah am ddod i'n hannerch. Hyfryd oedd clywed côr yr Ysgol yn canu yn ystod y gwasanaeth a chodwyd swm sylweddol o arian tuag at yr Uned Cardiac, Ysbyty'r Plant Birmingham lle mae un o'n disgyblion yn derbyn triniaeth. Ar ddiwedd y gwasanaeth cyflwynwyd Beiblau i ddisgyblion blynyddoedd 3 – 6 a diolch yn fawr i Mr G Jones ac aelodau'r Eglwys Efengylaidd, Llambled, Mr G Morgan Cwmann a Geoff Smith o Gaerfaddon am wneud hyn yn bosib.

Ysgol Bro Pedr Campws Iau

Bu cerddorion o Tsiena yn diddanu disgyblion yn yr Adran Iau a braf oedd cael gwyllo cyflwyniad am Xi, an a dysgu am ddiwylliant y wlad. Rydym hefyd yn croesawu Miss Ting atom i Fro Pedr ac yn mwynhau ei chwmni ar brynhawn dydd Mercher wrth iddi fynd o gwmpas y dosbarthiadau yn gwneud cyflwyniadau sy'n ymwneud â themâu'r tymor. Cafodd disgyblion blwyddyn 5 y cyfle i ddysgu ffeithiau am Wal fawr Tsiena a bu disgyblion y Meithrin yn defnyddio chopsticks!

Treuliodd deugain o blant o'r Adran Iau brynhawn difyr yn Jambori'r Urdd yn ddiweddar a mwynhau canu'r hen ffefrynnau yng nghwmni Gwenda Owen.

Bu disgyblion yr Ysgol yn gwneud gweithgareddau amrywiol yn seiliedig ar lyfrau T Llew Jones ar Dachwedd 10 fed a bu pawb yn dechrau sgwrs yn y Gymraeg ar ddiwrnod "Shwmae."

Cafodd criw o ddisgyblion blwyddyn 6 y cyfle i fynychu gweithdy i ymarfer cyf-lythrennu ac ysgrifennu a chawsant ymweld â Sied Dylan Thomas hefyd.

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch yr ysgol a hyfryd oedd cael cwmni Mr Patterson i'n harwain mewn addoliad a diolch iddo am roi o'i amser. Braf hefyd oedd cael clywed côr yr Ysgol yn perfformio yn ystod yr oedfa.



Llongyfarchiadau i'r merched am gystadlu'n y Twrnaint Presidents Cup, sef twrnaint Pêl-rwyd Ceredigion yn Llambled ddydd Mawrth 7 Hydref. (O'r chwith: Sulwen Richards, Delyth Evans, Caitlin Page, Sophie Hall Jones, Rhian Evans, Ffion Quan a Kelly Jones)



Bu Huw Howells a Christopher Barker yn cynrychioli'r ysgol mewn cystadleuaeth CEWC Cymru yn ddiweddar. Cystadleuaeth ddadlau yw hon a gwnaeth y tîm yn arbennig o dda ac enillodd Christopher wobwr y siaradwr gorau.



Diwrnod Cenedlaethol Shwmae yn Llambled

Ymysg cefnogwyr Diwrnod Shwmae a oedd wedi ymgynnull ar Sgwâr Harford ac sy'n awyddus i bawb ddechrau pob sgwrs yn Gymraeg roedd pedwar o ddisgyblion Ysgol Bro Pedr - Elin Hughes, Elin Evans, Owain Davies, Dirprwy Prif fachgen a Gethin Morgan, Prif Fachgen. Noddwyd y diwrnod gan Gyngor Tref Llambled.

Llanllwni



Rhai o ddisgyblion adran iau ysgol Llanllwni gyda Bardd Plant Cymru Aneurin Karadog pan ymwelodd â'r ysgol i rapio gyda'r plant.

Ysgol Llanllwni

Cafodd disgyblion y Cyfnod Sylfaen ddiwrnod addysgiadol pan ymwelwyd â'r bwthyn yn Amgueddfa Abergwili gan gael cyfle i ddal nifer o hen arteffactau. Yna, ymlaen i Fferm Alltyfyrddin lle cafwyd croeso gan Mr a Mrs Richards. Gwelwyd yr anifeiliaid a hen offer ffermio.

Bu plant yr ysgol i gyd yn cymryd rhan yn oedfa prynhawn Cwrdd Diolchgarwch yr Eglwys a gynhaliwyd yn Neuadd yr Eglwys gan fod gwaith atgyweirio yn yr Eglwys. Llongyfarchiadau i Megan Evans ac Owain Evans ar gael eu dewis i fod yn Llysgenhadon Efydd Chwaraeon yr ysgol. Maent wedi cael diwrnod o hyfforddiant yn Llanbed ac wedi dechrau Clwb Chwaraeon amser cinio.

Roedd yn braf cael croesawu Bardd Plant Cymru sef Aneurin Karadog i'r ysgol. Cafwyd prynhawn gwych yn ei gwmni yn rapio. Aeth dosbarth Cyfnod Allweddol 2 i weld perfformiad o sioe Buddug Brenhines y Celtiaid yn Ysgol Llanybydder. Cafodd y plant gyfle i fod yn Geltiaid ac yn Rhufeiniaid. Diolch i Ysgol Llanybydder am y croeso. Aeth tîm o'r ysgol i gystadleuaeth pêl-droed 5 bob ochr a drefnwyd gan yr Urdd yng Nghanolfan Hamdden Llanbed.

Rydym yn un o'r ysgolion cyntaf yng Nghymru i archebu gwisg ysgol dan gynllun cotwm Masnach Deg a rhaid dweud bod y plant yn edrych yn smart yn yr 'hoodies' newydd. Cynhaliwyd Noson Bingo lwyddiannus iawn yn Talardd yn ddiweddar. Trefnwyd y noson gan Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol er mwyn codi arian i'r ysgol. Diolch yn fawr iawn i Tegwyn a Delyth Evans am noddi gwobrau ariannol y bingo. Diolch i John ac Ann ac i bawb a gefnogodd y Noson Bingo. Gwnaed £484.45 o elw.

Mae'r Cylch Meithrin a'r ysgol

wrthi'n trefnu Ffair Nadolig a fydd yn cael ei chynnal ddydd Sadwrn, 6ed o Ragfyr. Bydd yno amrywiaeth o stondinau a gweithgareddau a chroeso mawr i bawb.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol am fis Hydref:

1af - £10 – 2 – Gwion Evans, Brynceirch, Llanllwni.

2ail - £5 – 78 – Melvyn Rees, Llysywawr, Llanllwni.

3ydd - £5 – 188 – Emyr Evans, Cefncoed Isaf, Llanllwni.

C.Ff.I. Llanllwni

Ma mis hydref wedi ein gadael am flwyddyn arall, ac wrth gwrs ma hynny'n golygu fod ein heisteddfod sirol y tu cefn inni am flwyddyn arall, ac eisteddfod hynod o lwyddiannus a fu hi i rai o'n haelodau eleni. Daeth cyfanswm o bump cwpan yn ôl i'r clwb yn Llanllwni, yn ogystal â lluo o wobrau ail a thrydydd safle. Dyma restr o'r cystadlaethau a ddaeth i'r safleoedd uchaf:- Unawd dan 16 - 1af - Lois Thomas. Parti llefaru – 1af. Meimo – 1af. Creu brawddeg – 1af – Rhian Davies a 3ydd – Sioned Howells. Ffotograffiaeth – 1af – Miriam Cashel a 3ydd – Luned Jones. Dawnsio disgo – 2ail. Creu Hysbyseb – 2ail. Cywaith clwb – 2ail. Stori Fer – 3ydd – Rhian Davies. Creu Limrig – 3ydd – Sioned Howells. Adrodd digri – cydradd 3ydd – Owain Davies. Unawd offerynnol – Marek Phillips.

Dymunwn bob lwc i Lois, Rhian, Miriam a Hefin a chriw y meimo sydd wedi cael eu dewis i fynd ymlaen i Eisteddfod Cymru ym Mhonrhydfendigaid ymhen y mis. Diolch i bawb a fu ynghlwm â dysgu a pharatoi'r aelodau ar gyfer y gwahanol gystadlaethau.

Cynhaliwyd ein cwrdd Diolchgarwch eleni yn Neuadd yr Eglwys, Llanllwni dan arweiniad y Parchedig Suzy Bale. Diolch iddi am ei geiriau pwrpasol. Gwnaed

casgliad tuag at goffrau'r clwb, ac fe ddaeth yr aelodau â nwyddau i'w rhoi i'r banc bwyd yn Llambod. Diolch i bawb am eu cyfraniadau.

75oed

Yn ystod y mis dathlodd Bet Morgan, Glanafon ei phen-blwydd yn 75oed. Gobeithio eich bod wedi joio'r diwrnod.

Cylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni

Cyflwynwyd cais gan Bwyllgor Cylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni i Gronfa Fawr y Loteri Cymru, sef Arian i Bawb yn ddiweddar ar gyfer prynu gemau cyfrifiadurol, i pad i'r plant ddefnyddio dan orchwyliaeth, bee bots, a theclynnau symudol ynghyd ag offer magnetedd a sensori.

Ddydd Sadwrn 6ed o Ragfyr, cynhelir ffair Nadolig o 10yb tan 1yp yn Ysgol Gynradd Llanllwni. Bydd amryw o stondinau gwahanol, felly dyma gyfle gwych i ddechrau'r siopa 'Dolig! Yn ogystal ag amryw o stondinau bydd cyfle i'r plant weld Sion Corn. Croeso cynnes i bawb.

Cylch Ti a Fi

Mae yna groeso i rieni a'u plant ddod i Gylch Ti a Fi yn Ysgol Llanllwni ar fore Gwener rhwng 10yb a 12yb. Nod y sesiynau Ti a Fi yw cynnig cyfle i rieni / gwarchodwyr fwynhau chwarae gyda'u plant a chymdeithasu mewn awyrgylch Gymreig. Mae'r plant yn cael cyfle i wneud gwaith crefft,

canu a chwarae gydag amrywiaeth o'r teganau sydd gyda ni yn y Cylch. Yn ogystal, mae yna groeso cynnes yn eich aros gan Ffion.

Eglwys Sant Luc Llanllwni

Yn dilyn yr arfer, fe gawson ein Noson Goffi a Barbeciw blyneddol a hynny ar noson braf ar y 10fed o Orffennaf. Y llywydd eleni oedd Mr. Delme Jones, Abertawe (gynt o Lanybydder) a oedd yn methu â bod yn bresennol ond fe roddodd yn hael i'r gronfa.

Yn y Neuadd Gymunedol y cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch a'r pregethwr gwadd oedd ein cyn Ficer, Parch Bill Fillery. Cafwyd ganddo neges bwrpasol.

Y noson ddilynol roedd ein Swper Cynhaef ac ar ôl pryd o fwyd bendigedig Marek Phillips, Llethneuadd a Sioned Howells Pantglas a wnaeth yr adloniant. Cafwyd noson bleserus iawn.

Mae'r gwaith adnewyddu ar yr Eglwys yn dod ymlaen yn dda a gobeithir y byddwn nol yn cynnal gwasanaethau yno cyn y Nadolig.

Undeb y Mamau:

Dechreuodd ein tymor newydd ym mis Hydref a'r gwr gwadd oedd Mr. Melvyn Grey o Gastell Newydd Emlyn. Ei destun oedd bywyd gwyllt yn Nhrinid. Ar ôl ymweld â'r wlad nifer o weithiau mae wedi casglu trysorfa o luniau anhygoel o liwgar o adar a blodau gwyllt. Diolchodd Janet Howells iddo ac roedd y cyfarfod yma yn ffordd fendigedig o ddechrau ein blwyddyn. Gwasanaeth Cymun fydd ym mis Tachwedd.



Undeb y Mamau Eglwys Llanllwni.

Ddydd Sadwrn yr 11eg o Hydref yn Eglwys St Anne, Penparcau, Aberystwyth, roedd Miss Beth Davies, Gorrig, wedi trefnu Diwrnod Hwyl i'r Teulu ar ran Undeb y Mamau Arch Ddeoniaeth Ceredigion. Coeden Ddiolch oedd gan Ysgol Sul Llanllwni gyda'r plant ac oedolion yn cael cyfle i wneud amlinellid o'u llaw ac ysgrifennu geiriau o ddiolch arni. Roedd gwahanol weithgareddau i'r plant i'w gwneud ac roedd tîm o Plant Dewi yn bresennol hefyd. Bu'r plant yn canu dwy gân gyda chyfeiliant gitâr y Parch Andy Herrick. Roedd aelodau Eglwys St Anne wedi paratoi lluniaeth am ddim i bawb a phob teulu yn cael crymbl afal i ddod adref gyda nhw.

C.F.F.I. SIR GÂR.

Fe wnaeth llawer iawn o aelodau gynrychioli Sir Gâr yn arbennig iawn eleni eto yn y Sioe yn Malvern ddiwedd mis Medi. Fe wnaeth chwech aelod gystadlu yn y gystadleuaeth gosod blodau mewn gwahanol adrannau, - Adran Iau – Lois Price, Clwb Ffermwyr Ieuainc Cwmann a ddaeth yn ail, dim ond un marc tu ôl i'r cyntaf, merch o Swydd Warwick. Llongyfarchiadau mawr iddi ar ganlyniad arbennig a hefyd i Menna Thomas C.Ff.I. San Clêr a oedd yn bedwerydd yn y gystadleuaeth.

Yn yr Adran Ganol fe wnaeth Ioan Jones, C.Ff.I. Llanfynydd a Catherine Griffiths, C.Ff.I. San Clêr yn dda iawn ac yn yr Adran Hŷn daeth Rhian Lewis, C.Ff.I. Dyffryn Cothi yn 7fed – wyth marc yn unig y tu ôl i'r buddugol. Fe wnaeth Nerys Thomas o G.Ff.I. Llanllwni yn arbennig o dda yn ogystal.

Yn y gystadleuaeth Coginio daeth Cerian Thomas, Elen Evans a Bedwyr Evans o glwb Capel Iwan yn 7fed, - canlyniad gwych eto gyda 34 o dimau dros Gymru a Lloegr yn cystadlu. Gwnaeth ail dîm Sir Gâr yn dda iawn hefyd ac roedd y tîm yn cynnwys Siriol Richards, Beth Speke a Dafydd Davies.

Mae Ffederasiwn y Sir yn ddiolchgar iawn i holl hyfforddwyr y sir sydd yn rhoi cymaint o'u amser i helpu'r aelodau drwy'r adeg. Diolch yn fawr iawn.

Cynhaliwyd Cyfarfod Blyneddol y Mudiad ar lefel Cymru yn Stadiwm y Mileniwm yng Nghaerdydd a daeth llwyddiant i aelodau Sir Gâr unwaith eto gan i rai cael eu hethol yn swyddogion Cymru. Arwel Jones, cyn aelod o glwb Llandeilo a chyn Gadeirydd Sir Gâr fydd Cadeirydd yr holl gystadlaethau ar lefel Cymru yn ystod y flwyddyn nesaf. Dylan Bowen o glwb Capel Iwan yw Cadeirydd y Pwyllgor Rhyngwladol ar lefel Cymru ac mae Catrin Parry Williams o glwb Penybont wedi ei hethol yn Is- Gadeirydd y pwyllgor sy'n ymdrin â chyllid. Mr. Dai Jones, Llanilar yw Llywydd newydd y Mudiad ac mae'n rhaid diolch i gyn-aelod o Sir Gâr sef Nigel Owens am ei ymroddiad i'r Mudiad dros gyfnod o 5 mlynedd yn Llywydd ac am hedfan fflag y Mudiad ar bob achlysur. Dymuniadau gorau i'r holl swyddogion newydd ar lefel Cymru a llongyfarchiadau ar gael eu hethol.

EISTEDDFOD 2014

Nos Wener, 10fed Hydref, Nos Wener 17eg Hydref a Sadwrn 18fed Hydref 2014 cynhaliwyd Eisteddfod lwyddiannus iawn gan Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ieuainc Sir Gâr yn Neuadd San Pedr, Caerfyrddin.

Bu yna gystadlu brwd gyda C.Ff.I Penybont yn fuddugol ac yn ennill y darian, a chlwb Dyffryn Cothi yn 2ail a Llangadog yn 3ydd.

Yn y Darian gwaith cartref C.Ff.I Penybont oedd yn 1af, Dyffryn Cothi yn 2ail ac yn gydradd 3ydd roedd Llanarthne, Llangadog a Llanllwni.

Siw Jones oedd y beirniad cerdd, Iwan & Jan Thomas oedd yn beirniadu cystadleuaeth y Sgets, Ann Pash yr Adran Lefaru, Tudur Dylan Jones oedd y beirniad gwaith cartref, Lyndel Lewis oedd beirniad adran y dawnsio disgo ac Jennifer Maloney oedd beirniad y gystadleuaeth Dawnsio Gwerin a Stori & Meim. Diolch yn fawr iawn i bob un ohonynt am eu gwasanaeth arbennig.

Cyfeilydd yr Eisteddfod eleni eto oedd Mr Geraint Rees, a diolch arbennig i Nia Clwyd, Gillian Thomas ac Elin Rees am eu gwaith yn cyfeilio.

Arweinyddion yr Eisteddfod eleni oedd Mrs Elin Davies, Mrs Meinir Howells, Mr Iestyn Davies, Miss Gwawr Lewis, Mr Ben Jones, Miss Meryl Davies, Miss Carys Thomas. Mrs Llinos Jones oedd â gofal am ysgrifennu'r tystysgrifau. Mrs. Jane Morgan, Mrs Llinos Jones a Miss Marian Thomas oedd yn cadw'r sgôr, a diolch i bawb am eu gwaith arbennig. Diolch yn ogystal i holl Swyddogion y Sir a ffrindiau'r Mudiad am eu gwaith wrth y drws a thu cefn i'r llwyfan.

Gwestai yr Eisteddfod ar y nos Wener gyntaf oedd Cerdyn Price o Gwmann; Ambrose a Jean Lewis o Feidrim oedd ein gwesteion ar yr ail nos Wener, a'r dydd Sadwrn Brian ac Eirlys Thomas o Gwmffrwd. Diolch iddyn oll am eu geiriau o'r llwyfan ac hefyd am eu rhoddion hael iawn tuag at gyllid Ffederasiwn y Sir.

Yn fuddugol yng nghystadleuaeth y Gerdd ac yn ennill Cadair y Sir eleni oedd Endaf Griffiths o Glwb Dyffryn Cothi. Roedd y gadair eleni yn rhoddedig gan Mrs Elin Davies (Cadeirydd y Sir) ac wedi ei chreu gan Afan Thomas. Mr John James oedd â gofal am Seremoni'r Cadeirio gyda Ffion Jones yn canu Cân y Cadeirio a Lois Price yn canu'r Corn Gwlad.

Sulwen Richards, Grant Jones, Angharad Thomas, Bethan Morgan fu yn cyfarch y buddugol. Geraint Rees oedd yn cyfeilio yn ystod y seremoni.

Clwb Ffermwyr Ieuainc Llanfynydd fu yn stiwardio trwy gydol y tair noson a diolch i gwmi Sainsbury's am eu cefnogaeth fel noddwyr eleni.

Diolch i'r tîm swyddogion a fu'n gweithio'n galed trwy gydol yr ŵyl ac i bawb fu'n helpu mewn unrhyw ffordd.

C.Ff.I Ceredigion

Wel, mae aelodau'r mudiad yn ei chanol hi erbyn hyn, gyda'r gweithgareddau a'r cystadlu 'in full swing.' Fe af â chi nol i fis Awst i ddechrau.

Rali Ewropeaidd Cymru

Eleni, cynhaliwyd Y Rali Ewropeaidd yng Nghymru, a derbyniais i (Enfys Hatcher) y fraint o arwain tîm y wlad yn ystod y digwyddiad unigryw ac arbennig yma. Cafwyd wythnos orlawn o weithgareddau a gweithdai yn seiliedig ar y thema: "Byd yfory - creu dyfodol cynaliadwy i chi, eich sefydliad a'ch cymuned wledig." Braint oedd cynrychioli fy ngwlad ar y daith hynod wych yma, ac fe gewch chi'r hanes mewn adroddiad llawn toc.

Cyfarfod Blyneddol C.Ff.I Ceredigion

Daeth yn amser i ethol swyddogion newydd unwaith eto, a dyma'r bobl sy'n ein cynrychioli ni am y flwyddyn sydd i ddod:

Cadeirydd y Sir: Elgan Evans; Is-gadeirydd: Emyr Evans; Llywydd y Sir: Geraint Hatcher; Is-lywydd: Edwina Jones; Trysorydd: Eryl Jones; Is-drysorydd: Llion Davies.

Cadeirydd Pwyllgor Gweithgareddau: Caryl Haf Jones, Llanddewi Brefi; Is-gadeirydd Pwyllgor Gweithgareddau: Enfys Hatcher, Llanwenog; Trysorydd Pwyllgor Gweithgareddau: Mererid Jones, Felinfach; Cadeirydd Pwyllgor Materion Gwledig: Dion Davies, Pontsian; Is-gadeirydd Pwyllgor Materion Gwledig: Morys Ioan, Caerwedros; Ysgrifennydd Pwyllgor Materion Gwledig: Marged Jones, Mydroilyn. Cadeirydd y Fforwm Ieuencid: Carwyn Hawkins, Felinfach; Is-Gadeirydd y Fforwm Ieuencid: Caryl Morris, Llanddeiniol; Trysorydd y Fforwm Ieuencid: Meinir Davies, Llanwenog

Llongyfarchiadau i bawb am gael eu hethol, a phob hwyl yn ystod y flwyddyn.

Cyfarfodydd Blyneddol C.Ff.I. Cymru

Aeth llond bws o'n haelodau i Gaerdydd ar gyfer y digwyddiad pwysig yma, a dyma beth oedd penwythnos llawn sbort! Thema'r nos Wener oedd 'Môr Ladron' ac fe ddangosodd Ceredigion iddyn nhw sut oedd gwisgo, gan ddawnsio a chanu mewn steil i gerddoriaeth ac adloniant unigryw Huw Bryant.

Mynychwyd cyfarfod blyneddol y Mudiad a'r is-bwyllgorau ar y bore Sadwrn, yn Stadiwm y Mileniwm, lle etholwyd Dai Jones Llanilar yn llywydd arnom. Etholwyd Enfys Hatcher yn gadeirydd ar yr is-bwyllgor Marchnata a Chyfathrebu a Bethan Roberts yn gadeirydd ar yr is-bwyllgor Lles.

Noson gymdeithasol arall oedd o'n blaenau ar y nos Sadwrn, lle cynhaliwyd gemau ysgafn a disgo.

Cynrychiolwyd ein Sir ni yn y Cyngor ar y bore Sul, a diolch iddyn nhw am leisio barn ein Sir ni mewn modd aeddfed a phroffesiynol. Mae ein mudiad mewn dwylu saff.

Diwrnod Maes

Bu'r aelodau'n paratoi ac yn ymarfer yn galed cyn y Diwrnod Maes, a diolch i'r Sir am drefnu dwy noson o hyfforddiant barnu stoc i ni cyn y gystadleuaeth. Roedd y Diwrnod Maes yn un arbennig iawn eleni, gan i ni gynnal y gystadleuaeth ar fferm am y tro cyntaf, a diolch o galon i deulu Fferm Hafod, Ferwig, Aberteifi am gael defnyddio'r cyfleusterau gwych. Roedd hi'n ddiwrnod braf, ac aeth y trefniadau'n slic a diffwdan.

Dyma'r canlyniadau:

Stocman hŷn y flwyddyn: Dyfan Ellis Jones, Llangwryfon - 1af; Carwyn Jones, Mydroilyn - 2il; Dyfrig Williams, Llangwryfon - 3ydd; Dion Davies, Pontsian - 3ydd. Tîm: Llangwryfon 1af; Pontsian A 2il; Mydroilyn 3ydd.

Stocman Iau y Flwyddyn: Laura Evans, Llangwryfon - 1af; Gethin Evans, Caerwedros - 2il; Dafydd James, Bryngwyn - 3ydd; Tîm: Llangwryfon 1af; Llangwryfon 2il; Llanwenog 3ydd.

Stocman o dan 14: Twm Ebbsworth, Llanwenog - 1af; Ifan Davies, Llanddeiniol - 2il; Beca Jenkins, Pontsian - 3ydd.

Tîm: Llanwenog 1af; Llangwryfon 2il; Talybont 3ydd.

Ffensio: Llanddeiniol 1af; Pontsian 2il; Talybont 3ydd.

Ffensio Iau: Llangwryfon 1af; Llangwryfon 2il; Trisant 3ydd.

ATV: Cennydd Jones a Dion Davies, Pontsian 1af; Richard a Gareth Jenkins, Talybont 2il; Rhodri Organ a Rhydian James, Troedraur 3ydd. Fferm Ffactor Iau: Mydroilyn 1af; Llangwryfon 2il; Llanddeiniol 3ydd.

Y Ciwb: Llanwenog 1af; Trisant 2il; Llangwryfon 2il

Trimio Oen: Trystan Davies, Talybont 1af; Menna Williams, Llanwenog 2il; Steffan Rattray, Trisant 3ydd.

Addurno Coeden Nadolig: Angharad James ac Anwen Davies, Pontsian 1af. Twm Ebbsworth ac Iwan Evans, Llanwenog 2il; Angharad Davies a Ffion Adams-Lewis, Penparc 3ydd.

Tractor a Loader: Gareth Davies, Mydroilyn 1af; Rhys Richards, Talybont 2il; Rhys Lloyd Jones, Llanddewi Brefi 3ydd



AR DDIWEDD Y DYDD:
Llangwryfon: 1af; Llanwenog:
2il; Pontsian: 2il; Mydroilyn: 4ydd a
Talybont: 4ydd.



Dyma lun o glwb Llangwryfon
ar ôl ennill. Llongyfarchiadau mawr
i chi.

Noson Hyrwyddo Teithiau Tramor:

Ar yr 8fed o Hydref, daeth y
clybiau ynghyd i Glwb Rygbi
Aberaeron ar gyfer y noson
hyrwyddo. Roedd y gwledydd
sydd yn Rhaglen Teithiau Tramor
C.F.F.I. Cymru wedi eu rhannu
rhwng y clybiau, a rhaid oedd creu
arddangosfa ar gyfer pob un o'r
gwledydd. Daeth Dylan Bowen,
Cadeirydd yr is-bwyllgor teithiau
tramor i siarad â ni am y cyfleoedd
sydd ar gael, ac roedd cryn
ddiddordeb yn y teithiau. Dyma lun
o'r noson:



Clwb 200

Awst: D & AE Lewis, Rhydybont,
Tregaron. Sian Jenkins, Cathal,
Cwmsychpant. Gareth a Tanya
Morgans, Tangar, Abergwili.

Medi: Mr a Mrs Jenkins, Cathal,
Cwmsychpant. Ifan & Ann Jones,
Foelallt Farm, Llanddewi Brefi.
Bethan Jones, Blaengwyddon Fawr,
Capel Iwan Rd, C E Emlyn.

Hydref: Hywel Thomas, Delfan,
Oxford Street, Aberaeron. Mrs H
M Davies Maesronw, Bangor Teifi,
Llandysul. Mrs Rhian Davies.
Brenan, New Cross.

I ddod...

Nos Fercher y 12fed o Dachwedd
am 6.30: Hyfforddiant Barnu Carcas
yn Dunbia.

Dydd Sadwrn y 15fed o
Dachwedd: Eisteddfod CFFI Cymru
yn Mhafiliwn Bont.

Nos Fercher y 19eg o Dachwedd am
7.30: Pwyllgorau'r Sir yn Felinfach.

Nos Wener yr 21ain am 7.00 :
Chwaraeon Dan Do y Sir yn
Llanddewi Brefi.

1af – 2il o Ragfyr: Y Ffair Aeaf yn
Llanelwedd.

Dydd Sul y 7fed o Ragfyr: Siarad
Cyhoeddus Saesneg yn Felinfach

Sarn Helen



Criw Sarn Helen cyn dechrau Marathon Eryri yn ddiweddar.

Yn ddiweddar iawn daeth Dawn
Kenwright adref ar ôl cystadlu
ym marathon Medtronic Twin
Cities yn Minneapolis/St Paul
Minnesota. Roedd y marathon
yn rhan o ddigwyddiadau Global
Heroes, lle gwobrwyir 25 o redwyr
o bedwar ban byd sy'n dibynnu
ar ddyfeisiau meddygol. Daeth
y rhedwyr buddugol o Awstralia,
Canada, Israel, Tsienia, Columbia, Y
Swistir, Yr Unol Daleithiau, Brasil,
Yr Eidal a'r Deyrnas Unedig. Roedd
y rhedwyr hyn i gyd yn defnyddio
dyfeisiau meddygol, yn cynnwys
falfiau calon artiffisial, stents,
pympiâu insiwlîn a mewnbliadau'r
ymennydd.

Gwnaeth 8,000 o bobl gymryd
rhan yn y marathon a oedd yn
cylchu o amgylch nifer o lynnoedd
Minnesota yn ogystal â dilyn
glan afon Mississippi am nifer o
filltiroedd. Cariodd Dawn fflag
Cymru gyda balchder dros y llinell
derfyn, a hynny wedi 3 awr 55
munud.

Yn ogystal â chymryd rhan yn y
marathon, bu Dawn yn y seremoni
wobrwyo a derbyn ei gwobr Global
Heroes yng nghwmni ei gŵr a'r
buddugwyr eraill. Dilynwyd y
seremoni wobrwyo gyda thaith
o gwmpas cyfleusterau ymchwil
Medtronic, y cwmni a oedd yn
cefnogi'r achlysur, sef darparwyr
dyfeisiau meddygol mwya'r byd.

"Dyna chi ddigwyddiad anhygoel"
meddai Dawn wedi'r achlysur "Fe
wnes i nifer o ffrindiau newydd,
yn enwedig gyda Global Heroes
eraill. Roedden ni oll yn rhannu'r
un angerdd am redeg ac roedd hi'n
frait cael bod yn rhan o'r grŵp".

Carwyn Davies oedd y cyntaf nol
o blith rhedwyr y clwb yn hanner
marathon Caerdydd mewn awr
22 munud 16 eiliad, Gethin Jones
1:22:30, David Thomas 1:26:45,
Wyn Jones 1:28:21, Nigel Davies
1:31:12, George Eadon 1:34:45,
Caryl Davies 1:39:35, Katie
McDermott 1:44:38, Eleri Rivers
1:44:38, a Wendy Readwin 2:18:40.
Bu Simon Hall yn rhedeg hanner
marathon yn Dale, Sir Benfro ac
yn gorffen mewn awr 30 munud 14
eiliad.

Pen-y-bont Ar Ogwr oedd y cyntaf
yng nglyfres traws-gwlad Gwent.
Bechgyn nofis 43 Jamie Jones, 63
Dafydd Jones, 96 Sion O'Keefe,
dan 13 bechgyn 22 Daniel Jones a
dan 13 yn y merched 14 Beca Mai
Roberts, dan 15 Grace Page 61,
menywod hŷn 94 Caryl Davies, 147
Elen Page. Caitlin Page yn gorffen
yn 11eg yn y ras dan 17/20, ond
yn ennill y fedal aur dan 17 yn y
ras rhanbarth. Hefyd gorffennodd
Caitlin yn drydydd yn y ras filltir
yng Nghaerdydd; ras dan 15 Grace
Page 6 munud 17 eiliad, dan 13
Daniel Jones 6 munud 05 eiliad ac
yn gyntaf yn y categori agored.

Ras dau gopa yn Aberystwyth
Glyn Price 48:45, Daniel Hooper
51:14. Carwyn Davies 52:57, Simon
Hall 53:32, Calvin Williams 55:39,
Tony Hall 57:51, Huw Price 58:31,
Kaie McDermott awr 02:04, Eleri
Rivers awr 06:10, Allen Watts 2 awr
12:33.

Carwyn Thomas enillodd ras
hwyl 6.5 o filltiroedd yn Llanwenog
mewn 40 munud 52 eiliad, Carwyn
Davies 41:11, Daniel Hooper 41:41,
Mike Davies 42:06, Glyn Price



Dawn gyda'i thlws ar ôl cystadlu
ym marathon Medtronic Twin Cities.
42:07, Chris Schroder 43:15, Simon
Hall 44:08, Andrew Davis 44:38,
Huw Price 45:30, Nigel Davies
45:45, Tony Hall 46:22, Dawn
Kenwright 49:26, Sion Price 49:53,
Sian Roberts-Jones 50:15, Eric
Rees 51:22, Paul McDermott 51:52,
Aneurin James 52:50, Eleri Rivers
53:29, Elen Page 54:53, Anwen
Davies 1:02:02, Wendy Radwin
1:10:47, Allen Watts 1:51:30, ras iau
8-11 merched 1af Molly Greenfield,
2il Jessica McKay, 3ydd Evie McKay
bechgyn 1af Jamie Jones, 2il Gwion
Davies, 3ydd Jiva Harrison, ras 2.3
o filltiroedd 1af Daniel Jones, 2il
Thomas Willoughby, 3ydd Daniel
Willoughby, 4ydd Owen Schroder,
5ed Rory Dougherty, a'r merched
1af Grace Page 2il Naomi Howell,
3ydd Gwen Thomas.

Marathon Eryri Glyn Price 3awr
02 munud 53 eiliad, Michael Davies
3:20:09, Simon Hall 3:21:50.
Nigel Davies 3:36:20, Wyn Jones
£:36:121, Andre Davis 3:39:13,
Gethin Jones 3:39:39, Sian Roberts-
Jones 3:36:25, Carwyn Thomas
3:56:51, Eric Rees 3:59:11, Katie
McDermott 4:00:36, Aneurin James
4:15:30, Mitchell Readwin 4:23:48,
Terry Jones 4:24:08, Haydn Lloyd
4:25:32.

Hanner marathon Ron Skilton
yn Llanwrtyd Wells, 2il a cyntaf
d40 Daniel Hooper 1:33:12, 11eg
a chyntaf d50 Calvin Williams
1:48:12, ac yn gyntaf yn y ras
gyfnewid Carwyn Davies.

Bydd ras y mast yn cael ei chynnal
dydd Sul Tachwedd 30 o Ganolfan
Gwyliau Blaenwern Llanybydder,
ras plant am 12.30y.p a'r oedolion
am 1 o'r gloch.

Sicrhewch eich
newyddion yn y papur
hwn. Peidiwch â disgwyl
i rywun arall ei gynnwys
ar eich rhan. Mae'n rhy
hwyr i achwyn ar ôl i
CLONC ymddangos.



Ffair Nadolig Pontsian

Dydd Sul, 23ain o Dachwedd
rhwng 10:30yb a 3yh. yn Neuadd Pontsian

Dros 20 o stondinau gyda chrefftau amrywiol a
chynnrych lleol.

Gwobrau raffl gwych wedi'u rhoi gan ein stonidwyr.
Elw'r dydd yn mynd tuag at adnewyddu Neuadd Pontsian.
Mynediad-£3 oedolion a £1 blant cynradd, pris yn cynnwys diod twym a mins pei.
Dewch yn llw.

Hefyd yn dilyn am 7:30yh, noson o dwmpath dawn Nadoligaidd.
Dewch yn gwisgo eich hoff siwmpwr Nadolig.

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAW,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambed
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:

Carpedi a Feinyll, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349



REFLEXOLOGY

Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:

- * Blinder / diffyg egni
- * Meigrin
- * Sciatica
- * Irritable Bowel Syndrome
- * Menstrual problems
- * a mwy

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Carol Rees

01545 590164

07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

Mae CLONC wastad yn chwilio am bobl newydd i helpu.

Hoffech chi ysgrifennu erthygl neu dynnu lluniau?

Hoffech chi weinyddu'r wefan?

Neu beth am waith dylunio?

Rydym yn chwilio am swyddogion hysbysebu a swyddogion gwerthiant.

Allech chi sbario awr y mis wrth ymuno â'r criw ffyddlon sy'n plygu Clonc?

Cysylltwch ag un o'r Bwrdd Busnes er mwyn cynnig eich gwasanaeth os gwelwch yn dda.

Gohebiaeth

Galw siaradwyr Cymraeg Llambed a'r cylch – cefnogwch ein dysgwyr!

Apêl yw hwn i ni Gymry Cymraeg siarad â'r dysgwyr a'u hannog ymlaen. Rwy'n un o'r tiwtoriaid Cymraeg sy'n gweithio yng Ngheredigion ac mae'r dysgwyr yn haeddu ein cefnogaeth a'n clust. Cofiwch fod dysgwyr ar hyd a lled Cymru yn ymdrechu'n galed am flynyddoedd lawer ac yn frwd iawn.

Mae nifer dda o wirfoddolwyr wedi bod yn ymweld â dosbarthiadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a diolch iddynt. Fe'u synnwyd gan fedr y dysgwyr! Yn anffodus mae hyder y dysgwyr yn gwanhau ar y stryd gan fod pobl ar ôl y cyfarchiadau cyntaf yn troi i siarad Saesneg neu yn amharod i ddal ati. Mae'r dysgwyr hefyd yn poeni bydd ciw y tu ôl iddynt yn y siop yn colli amynedd!

Cyfathrebu sy'n bwysig nid cywiro. Roedd un yn dweud wrthyf ei bod yn dweud "Shw mae, dw i'n dysgu Cymraeg" wrth gydnabod ac ar ôl y 'Shw mae,' cychwynnol caiff "Da iawn, dal ati" ac yna mae'r Gymraes yn troi i'r Saesneg. Hefyd plis peidiwch â dweud "We don't say it like that." Medrwyd helpu wrth gwrs gydag ambell air a dywediad ond rhoi hyder sy'n bwysig, nid gwneud iddynt anobeithio. Rwy'n gwybod fod pobl ag ofn beth i'w ddweud ond byddwch yn naturiol a siaradwch yn arafach hefyd.

Ar ddiwrnod 'Shwmmae' ar Hydref 15 cawsom amser gwych ar sgwâr Harford yn Llambed yn cyfarch a sgwrsio. Diolch i bawb a ddaeth i helpu, yn enwedig rhai o ddisgyblion Ysgol Hŷn Bro Pedr a dosbarth o ddysgwyr. Diolch i'r Cyngor am noddi'r faner, y sticeri a'r cardiau dysgu Cymraeg. Cafwyd ymateb ardderchog gan y cyhoedd a llwyddwyd i ddysgu ychydig Gymraeg i'r di-Gymraeg hefyd.

Felly ymlaen â ni a chofiwch 'Dechreuwch bob sgwrs yn Gymraeg' a helpwch y dysgwyr.

Ann Bowen Morgan

Os oes gennych awydd dod i siarad â'r dysgwyr mewn sesiynau anffurfiol cysylltwch â fi - 01570 422413 neu ann.bowen.morgan@hotmail.co.uk

MiS y PaPur Newydd

Colofn Dylan Iorwerth

Bomiau bath, balsam a ni

Mae'n anodd iawn cwyno a chithau allan yn llewys eich crys ddiwrnod Calan Gaeaf.

Dwn i ddim sut y bydd hi noson Guto Ffowc, ond mae'n bosib iawn y bydd pobol yn cwyno bod y coelcerthi'n rhy dwym o lawer ac y byddai bach o eiscrim yn well na sosej a thaten boeth.

Efallai na allwn ni ddim barnu cyflwr y byd ar sail un mis Hydref ond mae'r haf bach Mihangel diweddar yma wedi bod tros ben llestri.

Mae'n debyg y dylen ni ystyried degawdau, yn hytrach na blwyddyn neu ddwy, wrth drio penderfynu beth sy'n digwydd i'r hinsawdd ... os dw i wedi deall yn iawn, tywydd ydi be sy'n digwydd heddiw; hinsawdd ydi patrwm y tywydd tros gyfnod hir.

Er hynny, does dim llawer o amheuaeth fod yr hinsawdd yn newid. Bob blwyddyn bellach, ryden ni'n clywed bod y tywydd yn oerach/sychach/gwlypach/poethach nag ers pan ddechreuon nhw gadw cofnod iawn o'r pethau yma.

Does gan y rhan fwy o wyddonwyr ddim amheuaeth o gwbl chwaith fod ein gweithgareddau ni'n cyfrannu at hynny. Mae sens yn dweud na fedrwyd chi ddim pwmpio cemegau i'r awyr heb fod hynny'n cael rhyw effaith.

Oherwydd treigl amser, yn ara' a graddol y mae'r newid yn digwydd. Mae'n siŵr fod pob math o dystiolaeth fod pethau'n wahanol ond nad yden ni wedi sylwi arnyn nhw eto.

Peryg fod yr amgylchedd rywbeth tebyg i un o'r bomiau gwynto'n neis y mae merched – ac ambell i ddyn – yn dueddol o'u rhoi yn y bath. Mi fyddan nhw'n ffisian yn gymhedrol i ddechrau cyn diflannu ynghynt ac ynghynt.

Er ein bod yn byw'n agos at afon, mae pobol ein rhan ni o Ddyffryn Teifi'n gymharol lwcus nad oes yna lifogydd ofnadwy wedi bod yn digwydd. Ar wahân i'r ffaith y byddai'n well i'r Co-op weithiau gael cychod bach yn hytrach na throlis, tydi pethau ddim yn rhy ddrwg.

Onid mae rhai rhannau o Gymru wedi gweld eisoes sut y mae'r tywydd eithafol yn gallu dinistrio cartrefi a bywydau. A dyna ichi fom arall i'r bath ... ryw ddiwrnod mi sylweddolwn ni na allwn ni amddiffyn pobman.

Arwydd arall, mae'n debyg ydi fod mathau newydd o blanhigion a chreaduriaid yn dechrau cael eu gweld mewn ardaloedd fel hyn – a rhai cyfarwydd yn diflannu. Ac mae rhybuddion am ystyr hynny eisoes yn ddigon plaen.

Achos mae ein gweithgareddau ni yn effeithio ar yr amgylchedd mewn ffyrdd eraill hefyd ac un o'r arwyddion i'w weld yn glir hyd lannau bron pob afon ac mewn dolydd ar hyd a lled ardal Clonc.

Dim ond rhyw ddwy neu dair blynedd yn ôl y des i'n ymwybodol o'r chwynyn pinc, digon prydferth, o'r enw balsam yr Himalaya. Ond, erbyn hyn, prin y gallwch chi gerdded hyd lannau ein rhan lleol ni o afon Teifi heb gael eich boddi ganddo.

Jac y neidiwr ydi'r enw Cymraeg, yn ôl termau Cymdeithas Edward Llwyd ac mae hwnnw'n gwneud iddo swnio fel rhyw degan bach doniol i blant. Ond mae'n ddisgrifiad da ... mae'n neidio o un lle i'r llall ac 800 o hadau'n ffrwydro o bob planhigyn.

Mae'n debyg ei fod wedi ei gyflwyno i wledydd Prydain union 175 o flynyddoedd yn ôl i eleni ac mae'n siŵr fod y rhai a wnaeth yn meddwl eu bod yn gwneud tipyn o strôc.

Ar yr wyneb, mae'n ddigon tlws. Yr hyn sy'n digwydd o dan yr wyneb ydi'r broblem. Mae'n debyg fod y balsam yn tagu pob math o blanhigion eraill ac, efo nhw, yn gwanhau'r mân greaduriaid sy'n dibynnu ar y rheiny.

Erbyn i bobol fel fi sylwi, mae'n llawer iawn rhy hwyr, a beryg mai fel yna y mae hi efo newid hinsawdd hefyd. Er mor braf ydi o, gobeithio mai tywydd nid hinsawdd ydi gwres mawr mis Hydref. Weithiau, fel y dywedodd y gân, llwynog ydi'r haul.

Llanfair Clydogau

Cydymdeimlad

Trist oedd clywed am farwolaeth Jane Stephens, Bro Clywedog, ar ôl afiechyd byr a hithau ond yn 58 oed. Symudodd Jane i'r pentre beth amser yn ôl gyda'i mab a'i merch i fyw gyferbyn â'i chwaer, Lesley. Roedd y teulu yn wreiddiol o ardal Caerdydd a'r Barri ond wedi treulio eu plentynod yn Zambia a wedyn yn Lloegr. Cafodd Jane angladd parchus yn

Eglwys Llanfair ac fe'i claddwyd ym mynwent y plwyf gyda llu o ffrindiau, perthnasau a chymdogion wedi dod ynghyd i dalu teyrnged iddi, rhai wedi teithio o bell. Roedd y gwasanaeth dan ofal y ficer Bill Fillery, gyda chyfraniadau gan ffrindiau. Chwaraewyd ei hoff fiwsig cyn, yn ystod ac ar ôl y gwasanaeth. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Lee a Peter, y plant, a Lesley ei chwaer.

Pen-blwydd

Llongyfarchiadau cynnes i Eleri Davies, Pentre ar gyrraedd pen-blwydd arbennig.

Diolch am y gwahoddiad i Pentre am de prynhawn i ddathlu'r achlysur.

Cyrddau Diolchgarweh.

Cafodd dau wasanaeth bendithiol eu cynnal yn y pentref, y cyntaf yn yr eglwys ar nos Fawrth, Hydref 7fed gyda'r gwasanaeth dan ofal y ficer, y Parchedig Bill Fillery, gyda Victoria Hackett yn rhoi'r bregeth a Paula Barker wrth yr organ. Cynhaliwyd yr ail wasanaeth yng nghapel Mair ar nos Iau, Hydref 16eg dan ofal Mr. Gareth Jones, arweinydd y Capel Efengylaidd yn Llanbed. Cafwyd gwasanaeth diddorol dros ben gyda chyfrifiadur a sgrin fawr yn dangos lluniau i ddod â'r bregeth yn fyw. Roedd y cyfeilio yng ngofal Aerwen Griffiths.

Ras yr Wyddfa

Llongyfarchiadau cynnes i Helen John, Pentre gynt, ar gyflawni Ras Marathon yr Wyddfa mewn ychydig dan bedair awr. Da iawn, Helen.

Sefydliad y Merched

Rwy'n siŵr y byddai pawb a oedd yn bresennol nos Iau, Hydref 23ain yn cytuno eu bod wedi cael noson ddiddorol a difyr gyda Erwyd Howells pan ddaeth atom i siarad am hen arfau, gan eu dangos a dweud eu hanes. Roedd yn noson agored a daeth nifer dda o bobol ynghyd i wrando. Ar ôl y siarad a'r ateb cwestiynau cafwyd bwyd da fel arfer wedi eu baratoi gan yr aelodau.

Ddydd Sadwrn, Hydref 25ain, cynhaliwyd ffair grefftiau, cacennau a phlanhigion i godi arian er lles y gangen. Roedd amrywiaeth dda o bopeth yn cael eu dangos gyda rafflau di-ri a bwd yn cael ei werthu.

Ffion

Siomedig fu hanes Ffion Quan, Sŵn yr Afon mewn ras yn Aberystwyth yn ddiweddar pan gafodd anaf ac oherwydd hynny methodd â gorffen y ras a hithau yn yr ail safle. Paid digalonni, Ffion. Dal ati ac fe ddaw'r canlyniadau rhagorol eto.

Clwb Cant

£20 John Petts. £10. Margaret Boothby. £10 Paul a Helen John. £10 Judith McKay £5. Glyndwr Jones. £5. Elis Hockenhull £5. Debora Jones. £5. Ray Gwarffordd. £5. Martin Quan. £5. Sooty Llanfair Fawr

Cwrtnewydd



Ar ôl y gwasanaeth aeth y staff â rhai plant i gartref Alltymynydd, Llanybydder gyda'r rhoddion o lysiau a ffrwythau. Dyma lun o Lleucu a Nia gyda'r rhoddion.

Ysgol Cwrtnewydd

Cynhaliwyd etholiad yn yr ysgol i ddewis plant i gynrychioli'r Cyngor Ysgol. Dyma'r rhai a fydd yn ein cynrychioli:- Cadeiryddes Lois Jones, Is-gadeiryddes Nia Morgans, Ysgrifynyddes Lleucu Rees, Trysorydd Daniel Waterman, aelodau blwyddyn 5 a 6 Carwyn Davies a Lisa Jenkins, aelodau blwyddyn 3 a 4 Elan Jenkins a Luned Jones ac aelodau y cyfnod sylfaen Megan Davies ac Elis Jenkins. Ein Llysgenhadwyr Efydd a fydd yn hybu ymarfer corff am y flwyddyn yw Lois Jones a Carwyn Davies. Mae'r ddau wedi derbyn hyfforddiant ac yn awyddus i ddechrau eu sesiynau ar ôl hanner tymor.

Cynhaliodd plant y Cyngor Ysgol brynhawn Coffi i godi arian tuag at Macmillan. Roedd pawb wedi bod yn brysur yn coginio cacennau blasus, a gwahoddwyd y gymuned gyfan i ymuno gyda ni. Cafwyd prynhawn llwyddiannus a chodwyd swm arbennig o £439.57.

Mae clwb yr Urdd wedi bod yn cwrdd yn wythnosol ac yn ystod y mis yr ydym wedi cael gweithgareddau amrywiol - peintio wynebâu, coginio, cwis a gêmâu Calan Gaeaf. Edrychwn ymlaen am weithgareddau y mis nesaf!

Bu plant Cyfnod Allweddol Dau yng ngwersyll yr Urdd Llangrannog am brynhawn o Jambori. Cafodd pawb brynhawn o ganu a joio.

Cynhaliwyd ein cwrdd diolchgarwch eleni yn neuadd yr ysgol. Daeth nifer o bobl i gefnogi a gwrando ar berfformiadau'r plant. Roeddent yn diolch am yr holl nwyddau yr ydym yn eu derbyn ar draws y byd. Ar ôl y gwasanaeth aeth y staff â rhai plant i gartref Alltymynydd, Llanybydder gyda'r rhoddion o lysiau a ffrwythau.

Aeth holl blant yr ysgol i Theatr Felinfach i wyllo sioe Experimentic. Cafodd pawb brynhawn gwyddonol wrth eu boddau.

Bydd aelodau'r Urdd Ysgol

Cwrtnewydd yn dod o amgylch y gymuned nos Lun, Rhagfyr 1af i ganu carolau.

Croeso cynnes i chi ymuno gyda ni am noson o garolau ac eitemau Nadoligaidd nos Fawrth, Rhagfyr 9fed yn Neuadd yr Ysgol am 7y.h.

Cydymdeimlo

Fe gollodd Olwen Jenkins, 6 Cae Sarn ddwy fodryb yn ddiweddar sef Ina Davies a Bessie Williams. Derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf â chwi fel teulu.

Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i Peter a Jean Griffiths, Fronddu ar ddathlu eu Priodas Ruddem yn ystod mis Hydref. Iechyd da eto i'r dyfodol.

Arwerthiant Seion

Cofiwch bawb am arwerthiant blyneddol Seion a fydd yn dathlu 60 mlynedd ddydd Sadwrn, Tachwedd 29ain am 3:00 o'r gloch. Mae'r arwerthiant yma wedi cael ei gynnal ers 60 mlynedd - mae hynny'n dangos tipyn o ymroddiad gan aelodau'r Capel i gadw pethe fel yma i fynd ar hyd yr amser. Agorir yr achlysur hanesyddol hwn gan y Parch Wyn Vittle o Langynnwr ger Caerfyrddin.

Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

19 Stryd Fawr,
Llanbed

Oriau Agor:
Llun - Sadwrn 12 - 9
Sul - ar gau

60 Cinio
Dathlu
C.F.1 Mydroilyn
Yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth
22ain o Dachwedd am 7.30y.h.
Pris y ginio: £20.
Er mwyn archebu lle cysylltwch â
Bethan ar 0797031462 cyn y 10fed o
Dachwedd.

ARWERTHANT BLYNYDDOL
CAPEL SEION
CWRTNEWYDD
YN DATHLU 60
DYDD SADWRN
TACHWEDD 29ain 2014
AM 3 O'R GLOCH Y.P.
STONDINAU O BOB MATH
AGORIR GAN
Y PARCH. WYNN VITTLE
LLANGYNNWR
TE CYMRIG A CHACEN
CROESO CYNNES I BAWB

**Cefn Hafo
Gorsgoch**

01570 434238

**Cyri bob nos Wener
£6 y pen**

Croeso cynnes i bawb!

**W.D.
Lewis**
a'l Fab
Maerch-wyr Amachyddol
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



Cegin Coedlannau

*'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'*

* *Cacennau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)*

* *Bwffe mawr neu fach*

* *Danteithion i de*

* *Pwjdinau*

* *Ar lwyd ar gyfer pob achlysur*

Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045

**Alec Page
Gof**



**Gwaith metal o safon
i'r tŷ a'r ardd.**

Dewch i drafod eich syniadau.

**Yr Efail, Barley Mow,
Llambod.**

01570 423955

www.alecpageblacksmith.co.uk

**WILLIAMS
& BOURNE**
CYFREITHIWR.
COMISIYNNWR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
Llambod**

■ 01570 422206 ■ 01570 423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Cwmann

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Dafydd, Elin, Ifan a Guto, Y Garn ar golli tad, tad yng nghyfraith a thad-cu annwyl, sef Thomas Williams, Garn Fadryn.

Diolch

Dymuna Ceinwen Russell, Coedeiddig ddiolch i bawb am y cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau a dymuniadau da tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch diffuant i bawb.

C.F.F.I. Cwmann

Mae wedi bod yn fis prysur y mis hwn, gyda'r eisteddfod yn cymryd y rhan fwyaf o'n hamser. Roedd yn eisteddfod lwyddiannus gyda sawl aelod yn dod i'r brig. Fe ddaeth Elan Jones yn gyntaf yn llefaru o dan 16 a'r merched yn ennill y dawnsio disgo. Aelodau eraill a wnaeth yn dda oedd Manon Williams a ddaeth yn ail yn y gwaith celf a dod yn ail hefyd wnaeth Elan Jones a Beca Jones wrth gystadlu yn y ddeuawd. Hefyd fe ddaeth Beca yn drydydd yn yr unawd dan 16. Roedd yn bleser gweld yr aelodau yn mwynhau wrth ymarfer a chymryd rhan dros yr wythnosau diwethaf. Fe hoffem fel clwb ddiolch i bawb a wnaeth ddysgu a helpu gydag ymarferion yr eisteddfod. Roedd yn ffrain gweld un o'n cyn-aelodau yn llywydd noson gyntaf yr eisteddfod, sef Mr. Cerdin Price. Llongyfarchiadau i Lois Price am ddod yn ail wrth osod blodau yn Malvern. Roedd Lois yn cynrychioli Sir Gâr a gwnaeth yn andros o dda, gan ddod yn ail allan o 40 o gystadleuwyr. Da iawn, Lois. Fe gawsom ein Cwrdd Diolchgarwch y mis diwethaf hefyd yng Nghapel Brondeifi a diolch i'r capel am adael i'r clwb ymuno â'u cwrdd. Roedd yr holl arian a gasglwyd yn mynd tuag at elusen y clwb eleni sef Cymdeithas Motor Neuron - casglwyd £233.70c. Da iawn bawb a wnaeth gymryd rhan yn noson chwaraeon y sir ddiwedd mis Hydref.

Cymdeithas Bethel Parcyrrhos, Cwmann

Daeth tymor hapus iawn Cyril a Rosemary Davies fel llywyddion i ben ddechrau Medi gyda gwibdaith hwylus iawn yn olrhain cyfnod bore oes yng nghylch Llansadwrn, Llangadog, Myddfai a Bethlehem. Troi ar y dde ar yr A482 am Lansadwrn a chael cipolwg ar olion y bwthyn lle ganwyd Rosemary cyn symud ymlaen i Eglwys Llansadwrn. Cwrdd yno â ficer y plwyf, person adnabyddus iawn i ni gyd, sef Y Parch Roger Thomas (Ram gynt) a rhoddodd ychydig o hanes yr eglwys a'r plwyf sydd dan ei ofal. Gwelsom gofologlofn W. Llewelyn Williams, Brownhill, aelod seneddol, gwladgarwr ac awdur "Gwilym a



Sefydliad y Merched Coedmor

Ar 6ed Hydref cynhaliwyd ein cinio blynyddol yng Nghlwb Rygbi Llambod.

Croesawodd Gwen bawb i'r noson wrth gyflwyno ein gwraig wadd Ann Jones, Llanddewi Brefi – Cadeirydd Sefydliad y Merched Cymru.

Cydymdeimlodd â hi ar farwolaeth ei mam yng nghyfraith, sef Mrs Marion Jones, Y Pant, Llanddewi Brefi, gwraig a fuodd yn weithgar iawn gyda'r mudiad am flynyddoedd lawer.

Dyweddodd Gwen ein bod yn ymfalchïo bod gyda ni Gymraes yn cynrychioli Cymru fel Cadeirydd.

Soniodd Ann am ei gwaith a'i dyletswyddau yn y Mudiad a'r holl deithio sy'n dod yn eu sgil.

Roeddem yn gallu dychmygu ei bod yn mwynhau'r profiad ac yn frwdfrydig a gweithgar dros y mudiad. I brofi'r pwynt, mae wedi cael ei dewis am y ddwy flynedd nesaf a phwy yn well i fod gyda ni ar y noson a ninnau yn dathlu 65 mlynedd ers sefydlu'r gangen.

Diolchodd Noleen i Ann am noson bleserus a diddorol iawn a dymunodd yn dda iddi gyda'r gwaith yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Diolchodd i'r clwb am y cinio blasus a'r croeso cynnes.

Cafwyd cyfarfod byr i ddilyn. Enillwyd y raffl gan y canlynol: Noleen, Mary, Helena, Bethan a Tegwen.

Benni Bach" ac eraill.

Symud ymlaen wedyn heibio ysgol Llansadwrn ac i lawr i Llangadog a gweld 'Y Garreg Fawr' wrth y brif fynedfa i Blasty Abermarlais ar y ffordd. Bu gwersyll mawr o filwyr o America yn yr hen blasty yn ystod y rhyfel. Yna, mynd heibio Gosen Llangadog, capel y Methodistiaid a adeiladwyd yn 1841 ac a ail-adeiladwyd yn 1907 cyn iddo gau yn 2013. Yno priododd Cyril a Rosemary yn 1962 ac yno hefyd cafodd y plant, Nigel a Wendy eu bedyddio.

Ar ôl mynd trwy bentref Llangadog a heibio i Blas Glansein, a oedd yn ganolfan hwyrnos yn y saithdegau, cyrhaeddwyd pentref Myddfai sydd mor adnabyddus am ei feddygon a'i gysylltiad â chwedl y forwyn o Lyn y Fan Fach. Cafwyd pryd ysgafn yn y ganolfan newydd cyn mynd o amgylch y pentref ac ymweld â'r eglwys hanesyddol lle mae carreg i goffau y meddyg olaf. Gadael Myddfai wedyn ac ymlaen heibio Llwynywermod, cartref Tywysog Charles yng Nghymru, a thrwy Llanymddyfri i Dreacastell. Troi yno am Landdeusant a galw i weld cronfa ddŵr Cwmwysg a agorwyd yn 1955 gan y Frenhines Elisabeth. Adeiladwyd y gronfa i gyflenwi dŵr i Abertawe.

Roedd y daith dros y mynydd i

Landdeusant a'r cyfle i weld olion camp Rhufeinig Garreglwyd yn bleserus iawn oherwydd roedd y tywydd mor ffafriol a'r haul yn gwenu. Cawsom hanes ardal Landdeusant a chyfle i weld golygfeydd y Mynydd Du a Llyn y Fan Fach cyn gwneud ein ffordd nôl i Fethlehem ac i fyny i'r Garn Goch i weld carreg goffa Gwynfor Evans. Roedd yn brynhawn bendigedig i rai o'r aelodau mwya heini gerdded i gopa'r Gaer Fawr i werthfawrogi ysblander Dyffryn Tywi. Ar y ffordd nôl i Llangadog cafwyd cyfle i weld cyn gartref Gwynfor Evans, sef Talar Wen, yn ogystal â chartref Cyril a'r teulu a oedd yn gymdogion i Gwynfor. Cafwyd cipolwg ar safle'r tai gwydr ar fferm Wernellym, y fferm lle magwyd teulu Gwynfor a Rhiannon.

Cafwyd swper blasus yn y Goose and Cuckoo yn Llangadog ac yn ôl ein harfer trosglwyddwyd y llywyddiaeth i Avril a Eric Williams am y tymor nesaf gyda Mrs Glesni Thomas yn derbyn yn garedig iawn yr Is-lywyddiaeth a Dilwen Roderick ac Alun Jones yn eu cefnogi fel trysorydd ac ysgrifennydd. Troesom am adre wedi cael diwrnod pleserus iawn a braf oedd cael cwmni teuluoedd a oedd wedi bod mewn profedigaeth dros yr haf.

Cwmann

Côr Cwmann a'r Cylch

Daeth dathliadau hanner canmlwyddiant y Côr i ben ym mis Hydref gyda dau achlysur llwyddiannus iawn. Yn gyntaf, ar nos Sul y 12fed cynhaliwyd Cymanfa Ganu yng Nghapel Soar Llanbed dan arweinyddiaeth J Eirian Jones, Cwmann gyda Geraint Williams, Llangennech wrth yr organ, dau â fu â chysylltiadau agos gyda'r Côr yn y gorffennol. Roedd y capel yn gyffyrddus o lawn gyda llawer o gantorion wedi dod o gorau eraill a phleser o'r mwyaf oedd clywed canu pedwar llais yn ymateb i arweinyddiaeth gelfydd Eirian a chwarae Geraint ar yr organ. Llywydd y noson oedd Alun Lloyd Williams, Crown Stores, a chafwyd araith arbennig ganddo ac hefyd rhodd hael at y noson.

Yn ystod y gymanfa cafwyd datganiad gan Gôr Lleisiau'r Werin a Chôr Cwmann a'r Cylch. Recordiwyd y cyfan at raglen Caniadaeth y Cysegr. Ar ddiwedd y noson cafwyd casgliad at yr elusen Ymchwil Leukaemia. Diolchodd Cyril Davies, cadeirydd y Côr, i bawb am gyfrannu at noswaith lwyddiannus iawn.

Nos Fercher 22ain o Hydref yn Neuadd Sant Iago Cwmann, cynhaliwyd noson lansio llyfr hanes y Côr, sef Cofio'r Hanner Canrif. Breuddwyd y cyn gadeirydd, Arthur Roderick oedd cronicle hanes y Côr ac ef oedd y golygydd. Yn drist iawn bu Arthur farw ym mis Gorffennaf, ond yn ffodus iawn cymerodd Alun Jones, yr Is-olygydd at yr awenau ac ef a roddodd flas o gynnwys y llyfr yn y lansio. Arweiniwyd y noson gan gadeirydd y Côr, Cyril Davies, ac yn dilyn Alun, cymerwyd rhan gan lywydd y Côr, Alun Lloyd Williams, a gan Alun, Hywel a Heulyn Roderick a'r Parch Goronwy Evans. Cyflwynodd Cyril lyfr clawr lleder gyda llythrennau aur i Dilwen Roderick ac i'r is-olygydd.

Ar ddechrau'r noson cafwyd datganiad o bedair cân gan y Côr, ac ar ôl y lansiad bu pawb yn mwynhau lluniaeth ysgafn o welsh cakes a bara brith wedi eu gwneud gan wragedd y Côr. Rhoddwyd waffles Tregroes gan Kess Hyusmans a the a choffi gan Dai Jones, Dai's Diner. Diolchodd Cyril i bawb cyn gwahodd y tanysgrifwyr a'r noddwyr i ddod i gasglu eu llyfrau. Cyhoeddodd hefyd bod y llyfr ar werth yn siop y Smotyn Du, Llanbed.

Diolch

Dymuna Tommy, Eira, Iona, Shân a'u teuluoedd ddiolch o galon i berthnasau, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o

gydymdeimlad a dderbyniwyd ar adeg drist iawn wrth golli gwraig, mam, mam yng nghyfraith a mam-gu annwyl, sef Mrs Irene Price, Gelliwrol, Cwmann. Gwerthfawrogwn yn fawr yr holl gardiau, llythyron, galwadau ffôn ac ymweliadau. Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd yn hael tuag at Uned Strôc, Ysbyty Bronglais.

Dymuna Mair Williams, Dôleinon ddiolch i gymdogion a ffrindiau am bob cymorth, rhoddion, galwadau ffôn a'r llu cardiau a dderbyniodd cyn a wedi ei llawdriniaeth yn ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf at David a Jean a'u teuluoedd ar farwolaeth ei tad Evan Jones, Trefin ac unrhyw deulu arall sydd wedi colli anwyliad.

Ysbyty

Dymunwn wellhad buan i Beti Davies, Manglas a Ronnie Roberts, Brynview yn dilyn eu llawdriniaethau yn ddiweddar.

18 oed

Pen-blwydd hapus i Gethin Morgan, Llys Penparc sydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed. Mwynha'r parti.

Cymdeithas Ddiwylliadol Bethel, Parcyrrhos

Cafwyd noson hwylus i ddechrau'r tymor dan lywyddiaeth Avril ac Eric Williams a hynny yng nghwmni Mrs Dinah Jones o Lamed. Merch o ardal Cribyn yw Dinah yn wreiddiol ac mae erbyn hyn yn perchen ar gwmni teledu Silin.

Siaradodd yn frwdfrydig am ei gwaith fel cynhyrchydd radio a theledu, a dangosodd i ni bytiau o ffilmiau a gynhyrchwyd ganddi. Gwelwyd rhai ohonynt ar y teledu yn ddiweddar, er enghraifft, 'Teulu Bach Nantoer' ac 'Annie's War'. Mae ganddi hefyd gyfres ar Radio Cymru ar hyn o bryd yn olrhain hanesion yn ymwneud â'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Diolchodd Eric i Dinah am noson ddiddorol.

Cydymdeimlwyd â'r teuluoedd hynny oedd wedi colli anwyliad yn ystod yr haf - rhai a arferai fod yn aelodau'r Gymdeithas.

Bydd y cyfarfod nesaf yng Nghapel Esgairdawe ar nos Lun, 17eg o Dachwedd am 7.30y.h. pryd y cynhelir Cwis Blynnyddol yr Ofalaeth.

Clwb 225

Mis Medi

1. 211 Dana Jones, Cae Coedmor, Cwmann. 2. 187 Anita Williams, Dolycoed, Cwmann. 3.

43 Donald a Helen Thomas, Tŷ Hathren, Cwmann. 4. 21 Rhys Jones, Tanybryn, Cwmann. 5. 147 Emyr Jones, Hollies, Heol-y-Gogledd, Llanbed. 6. 190 Mr & Mrs Kidby, Erwau, Parc-y-rhos, Cwmann. 7. 45 Alun Jones, Glanrhyd, Parc-y-rhos, Cwmann. 8. 91 Aled Davies, Tremle, Cwmann. 9. 194 Dafydd Lewis, Pantmeiniog, Cwmann. 10. 69 Cyril Davies, Brynteg, Heol-y-Wig, Llanbed.

Mis Hydref

1. 219 Mr L. Rotherby, Golwg-y-Dyffryn, Cwmann. 2. 173 Mr & Mrs W. Edwards, Ddeunant, Cwmann. 3. 102 Tom Davies Jones, Glanhelen, Heol-y-gogledd, Llanbed. 4. 144 Carl a Meinir Douglas, Llwydfedw, Cwmann. 5. 6 Ann Douch, Maestroyddin Fawr, Cwmann. 6. 121 Fiona Jones, Llysteifi, Cwmann. 7. 208 Sian Roberts-Jones, Croesor, Cwmann. 8. 53 Tegwen Morris, d/o Brynhathren, Cwmann. 9. 92 Adrian Davies, Hafod Ion, Cwmann. 10. 206 Tracey Edwards, Glynview, Cwmann.

Clwb 125 Neuadd Sant Iago

1. 104 Mrs Heledd Jones, Penrhos, Cwmann. 2. 39 Aled Evans, Hafod-y-Gân, Cwmann. 3. 59 Mrs Glenys Harrison, Tŷ Hir, Cwmann. 4. 132 Mrs Shirley Northam, 38 Bro Einon, Llanybydder. 5. 73 Gavin a Rebecca Evans, Annwylfan, Llanllwni. 6. 127 Mrs Pat Davies, Dolcoed, Cwmann. 7. 112 Women's Work Shop, Cwmann. 8. 36 Graham Evans, Fferm Felinfach, Cwmann. 9. 141 Stephanie James, 15 Bro Llan, Llanwnnen.



Golff

Yn ystod mis Medi treuliodd Bryn Thomas, Tŷ Hathren benwythnos yng ngwesty'r Celtic Manor yn cael asesiad Golff. Derbyniodd Bryn y newyddion ei fod wedi cael ei ddewis i gael ei hyfforddi gan Academi Carfan Undeb Golff Cymru. Pob lwc i ti, Bryn.

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad, Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion, Oriel a Gwasanaeth fframio lluniau ayb

Sianti

Uned 2 Monumental Works,

Stryd y Fro, Aberaeron

gyferbyn a Banc y Natwest

01545 571510

www.sianti.org



Heol Caerfyrddin
Llanybydder
Sir Gaerfyrddin

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llanbed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Teithio

Cyfrifoldeb



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliad

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cynghor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401
Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Conduct Authority

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

Llanbedr Pont Steffan

Adran yr Urdd Llambod

Dechreuwyd y tymor gyda noson o fingo a diolch i Anthea am drefnu'r gwobrau. Yna cafwyd noson yn creu llyfrnod wrth i ni gofio am yr awdur enwog T. Llew Jones. Buom hefyd yn cwblhau cystadlaethau Carnifalwn yr Urdd.

Bydd aelodau hŷn yr adran yn mynd i Noson Chwaraeon ar gyfer adrannau ac yn ein cyfarfod wedyn sef Tachwedd 11 bydd Rhyddian o'r Urdd yn ymuno â ni.

Cofiwch hefyd am y Carnifalwn ar Dachwedd 19 ac oedfa Sul yr Urdd ar Dachwedd 23.

Merched Wawr

Yn wahanol i'r arfer aeth yr aelodau allan ar y 14eg Hydref i ymweld â siop ddillad 'Steil' yn Aberaeron. Cafwyd croeso cynnes gan y perchennog, Meinir Bowen. Treuliwyd orig hwylus yn edrych ar y dillad ffasiynol a blasu'r caws a'r gwin a oedd wedi ei baratoi ar ein cyfer.

Diolchodd Verina Roberts yn gynnes i'r perchennog a'i staff ac i Mary Davies, ein llywydd, a'r swyddogion am drefnu'r noson.

Cynhaliwyd ein cyfarfod busnes yng Ngwesty'r Castell. Cydymdeimlwyd ag Elin Williams ar golli ei thad-yng-nghyfraith. Llongyfarchwyd Dinah Jones ar ei rhaglen ddogfen wych a ymddangosodd ar y teledu yn ddiweddar, hefyd Elsi Dafis am ei herthygl ddifys yn 'Clone'.

Dymunwyd yn dda i Rhiannon Jones ar ddathlu pen-blwydd arbennig. Paratowyd stondin gan y gangen yn 'Ffair Hydref' Hafan Deg, Llanbedr. Diolchodd Mary i Pat Davies, Eryl Jones a Verina Roberts am gynorthwyo ar y dydd ac i bawb a gyfrannodd nwyddau.

Derbyniwyd gwahoddiad i ymuno â changen Bronnant ar nos Fercher, 5ed Tachwedd. Gofynnir i bawb ymgynnull ar y 'Rookery' am 7 o'r gloch.

Tynnwyd ein sylw at brosiect ein Llywydd Cenedlaethol, Meryl Davies i gasglu ategolion i'w gwerthu i gael arian at godi ymwybyddiaeth o beryglon clefyd y galon, yn enwedig ymhlith merched. Mae'n dymuno fod pob cangen yn cynnal noson o hyfforddiant cymorth cyntaf yn ystod y tymor.

Enillydd y raffl misol oedd Glesni Thomas.

Cyfeiriwyd at ddiwrnod 'Shwmae' ar y 15fed Hydref os oedd rhywun am ymuno yn yr hwyl.

Bydd ein cyfarfod nesaf yn ginio blynyddol yng Ngwesty Llain y Castell ar y 10fed Tachwedd am 7.30 o'r gloch.

Rhaglen Cefn Gwlad

Hyfryd oedd gwyllo S4C yn ystod y mis gan weld Teulu Cwmhendryd

yn dangos gwartheg biff y fferm ar eu gorau yng nghwmni Dai Jones, Llanilar.

Rhaglen fendigedig a llongyfarchiadau i chi i gyd am gynhyrchu stoc mor wych ar gyfer sioeau Cymru, yn genedlaethol ac yn lleol ar hyd y blynyddoedd.

Cylch Cinio

Nos Iau Hydref y cyntaf, dechreuodd cyfnod arall yn hanes Cylch Cinio Llanbedr. Dyna pryd daeth dros ddeg ar hugain ohonom ynghyd yng nghanolfan foethus Gwesty'r Glynhebog. Fe'n croesawyd gan y llywydd Y Parch John Emrys Jones ac yr un pryd estynnwyd croeso cynnes i bedwar aelod newydd, sef Eifion Williams (wedi ail ymaelodi), Ceri Davies, Kees Huysmans a Ken Lewis er i Ken fethu â bod yn bresennol yn y cyfarfod cyntaf.

Cododd pawb mewn cof a galar am ddau o'n cyn Lywyddion - aelodau brwd a blaengar oedd wedi ein gadael ers y cyfarfod diwethaf. Er bod yr ystafell yn llawn eto roedd y lle yn wag wrth weld eisiau Ieuan Roberts ac Arthur Roderick. Mawr y golled a dwys y deyrnged.

Ar ôl pryd blasus, cyflwynodd y Llywydd y siaradwr gwadd am y noswaith sef y Bnr John Watkin o Ffair Rhos.

Heb os, roedd ei destun "Merched yn fy Mywyd" wedi creu cryn gywreinrwydd ym meddyliau llawer ohonom ac efallai wedi goglais dychymyg un neu ddau! Ond yn wir, buan y deallwyd mai rhinwedd ac nid rhyw y bodau dan sylw oedd yn bwysig. Synnwyd pawb gan straeon yn sôn sut y bu iddo gyfarfod a chyfathrebu a chreu agosatrwydd â benywod blaenllaw fel Norah Isaac yn y Coleg yng Nghaerfyrddin a Teleri Bevan yn ystod ei gyfnod yn gweithio gyda'r BBC. Wrth ei waith, roedd wedi teithio'r byd o Login i Lahore a thrwy hynny wedi cael y cyfle i gysylltu'n glos â'r amlycaf o'r rhyw deg. Un o binaclau ei fywyd oed cael y fraint o gyfarfod ag Indira Gandhi a gwneud ffilm o'i bywyd cyn ei llofruddiaeth erchyll. Mwynhawyd yn fawr iawn ddeunydd a dull ei gyflwyniad. Noson i'w chofio a phawb yn 'mofyn rhagor. Diolchwyd yn wresog iawn i'r siaradwr gan y Bnr Ceri Davies.

Wedi tipyn o gwmnïa ac o glonc aeth pawb i glwydo wedi'u digoni'n llwyr gan gynnwys a naws y noswaith.

Urdd y Benywod, Brondeifi

Testun ein siaradwraig, Elizabeth Evans, oedd Meddygon Myddfai. Yr oedd ei sgwrs yn trafod yr hanes, yr hud, a'r ffeithiau y tu ôl i feddyginiaeth gynnar yng Nghymru.

Cafodd Elizabeth ei magu yn



Llongyfarchiadau i Glwb Rygbi Llambod ar ennill gwobr Biffa 2014 trwy wledydd Prydain am Ddatblygiad Cyfleusterau yn y Gymuned. Dyma Chris Doughty a Richard Davies yn derbyn y wobwr yn yr Old Royal Naval College, Greenwich, Llundain ddydd Iau Hydref 9fed.



Diwrnod Shwmae yn Llambod

Grŵp o gefnogwyr Diwrnod Shwmae wedi ymgynnull ar Sgwâr Harford ac yn awyddus i bawb ddechrau pob sgwrs yn Gymraeg. Yn y llun mae cynrychiolwyr nifer o fudiadau ac unigolion. Noddwyd y diwrnod gan Gyngor Tref Llambod.

fferyllfa ei thad a'i mam ym Mhorth Tywyn. Roedd gan ei thad ddiddordeb mawr yn nhraddodiad meddygol y werin, ac mae Elizabeth wedi parhau'r diddordeb yma trwy ymaelodi â nifer o gymdeithasau yn cynnwys Cymdeithas Hanes a Meddygaeth Cymru.

Mae'r hanes yn ymestyn yn ôl ymhellach na'r llawysgrif cynharaf sy'n trafod y

Meddygon yn y Llyfrgell Brydeinig yn Llundain a chopi Meddygon Myddfai yn y llyfr enwog, Llyfr Coch Hergest yn llyfrgell Bodley yn Rhydychen. Mae yna sawl copi o'r testun yn dod o'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Mae hynny'n dangos pa môr bwysig oedd gwaith y meddygon, gan fod y rhain wedi goroesi er bod y rhan fwyaf o waith cynnar y Cymry wedi diflannu. Ysgrifennwyd y testun yn wreiddiol yn amser Rhys Grug er mai etifeddu gwybodaeth draddodiadol a

wnaeth y Meddygon. Yr oedd swydd y meddyg yn un pwysig o dan reoliad yr awdurdodau.

Darllenodd Elizabeth ran o lyfr Hywel Dda o'r ddegfed ganrif yn trafod dyletswyddau'r meddyg a'i ddaliadau. Mae Meddygon Myddfai

hefyd yn trafod personoliaeth ac ymddygiad; yn wir, fe fyddem yn ffodus heddiw cael y fath feddyg heddiw!

Pam fod Myddfai yn bwysig? Beth sydd yn bwysig am y lleoliad? Adroddodd Elizabeth ran o waith y botanegydd David Bellamy a oedd yn pwysleisio cyfuniad hinsawdd a phridd yr ardal ac ychwanegodd bod Tywysogion Dyfed yn gefnogwyr i'r mynachod, a dyletswydd y mynachdai oedd rhoi cymorth i'r cleifion. Trwy'r mynachod mae yna linell arall yn cyfrannu gwybodaeth am y meddygon clasurol fel Galen a Hippocrates a Dioscorides. Ond mae beddau o'r Oes Efydd ar y Mynydd Du yn dangos fod perlysiâu wedi bod yn bwysig yn yr ardal hon ers miloedd o flynyddoedd, ac mae haneswyr y Rhufeiniaid yn dangos bod gan y Derwyddon ddyletswyddau fel meddygon hefyd. Cafodd stori'r forwyn o Lyn y Fan Fach ei hychwanegu at stori Meddygon Myddfai rhyw ddwy ganrif yn ôl.

Rhoddyd y diolchiadau gan Gwenda Davies. Dywedodd bod y pwnc wedi ail-godi ei diddordeb ym Meddygon Myddfai, a chanmolodd

Llanbedr Pont Steffan



Llwyddodd tîm pêl-droed Adran Llanbedr i ddod yn ail yng nghystadleuaeth pump bob ochr i ysgolion ac adrannau dan 50 o blant. Da iawn, bois.



Da iawn i bawb o Adran Llanbedr a fu'n cystadlu yn y gystadleuaeth pêl-droed i adrannau yn ddiweddar a diolch i Mrs Amanda Jones am drefnu. Llongyfarchiadau i'r tîm uchod am ddod yn 3ydd. Daliwch ati bawb.

Elizabeth am wau yr hanesyddol, y llenyddol a'r

gwyddonol ynghyd yn ei sgwrs.

Bydd Urdd y Benywod, Brondeifi yn cwrdd mis nesaf, ar ddydd Iau, Tachwedd 13, 7:30y.h. Croeso cynnes i bawb i groesawu Alison Jones, o Gwmni Dunbia.

Nosweithiau arddangos Piciau (Dartiau)

Mae tymor newydd Cynghrair Piciau tref Llanbedr wedi ail-ddechrau, ac mae dwy noson wedi eu trefnu drwy law'r gynghrair a chwmni hyrwyddo newydd 'Esgob Bedlam'. Mae hyn yn dilyn llwyddiant 'Noson Y Meistri' ym Mis Chwefror gyda Eric Bristow, John Lowe, Bob Anderson a John Gwynne.,

Ar Ragfyr y 6ed bydd Cyn Bencampwr y Byd, Richie Burnett, yn ymddangos yn Neuadd Fictoria am noson hwylus o biciau a storïau, gan un o gymeriadau mwyaf y byd Piciau. Bydd y noson hon yn codi arian at apêl elusen Diabetes UK Cymru. Drysau yn agor am 6yh. Tocynnau yn £10

Ar yr 28ain o fis Mawrth 2015, bydd Gêm Arddangos Ryngwladol rhwng Cymru a Lloegr, eto yn

Neuadd Fictoria. Bydd tîm Cymru, sef Jamie Lewis, Aberteifi a Wayne Warren o Dreorci yn herio Stephen Bunting a Dean Winstanley. Stephen yw Pencampwr y Byd 2014, a bu Dean yn rhif 1 y byd yn sefydliad y BDO. Mae'r ddau ohonyn nhw a Jamie yn chwarae ar gylchdaith y PDC. Bydd y noson yma yn un o safon uchel ac eto yn codi arian at Apêl Diabetes. Bydd Tocynnau ar gael o £20 i £30.

Unrhyw gwmni a fyddai'n hoffi noddi'r Gêm Ryngwladol, neu am docynnau am y ddwy noson, ffoniwch Bedwyr ar 07580 128039 neu drwy e-bost ar davies063@btinternet.com

Gymdeithas Ddiwylliadol Eglwys Shiloh a Soar

Agorwyd tymor Cymdeithas Ddiwylliadol Eglwys Shiloh a Soar ar nos Wener Hydref 25 yn y ffordd arferol drwy gynnal swper y cynhaeaf. Estynnwyd croeso cynnes i'r gynulleidfa luosog a ddaeth ynghyd gan y Llywydd, Huw Jenkins ac anrhydedd oedd cael croesawu ei gymdogion, Kees ac Elonwy Huysmans yn westeion. Mwynhawyd orig hyfryd o ganeuon ac unawdau gan Kees yn cynnwys

y Crwydryn, Bronwen, Craig yr Oesoedd a Bryniau Aur fy Ngwlad a phawb yn rhyfeddu at gyfoeth a rheolaeth ei lais. Does dim rhyfedd iddo ennill yr unawd Bas yn y Brifwyl eleni. Mae cefnogaeth ei gyfeilydd a'i briod annwyl, Elonwy, yn allweddol i'w lwyddiant. Diolchodd Twynog Davies yn gynnes iawn i'r ddau am noson a erys yn hir yn y cof ac am gyfraniad y ddau at fywyd a diwylliant eu bro.

Diolchodd Twynog hefyd i'r gwragedd am baratoi gwledd ar ein cyfer a hyfryd oedd profi y cydweithrediad hapus rhwng y ddwy Eglwys. Mynegodd ei werthfawrogiad hefyd i'r ysgrifennydd Rhys Bebb Jones am lunio'r rhaglen ac i John Davies am ei waith di-flino fel Trysorydd y Gymdeithas. Mrs Ann Thorne bydd y gwestai nesaf ar brynawn dydd Iau Tachwedd 6 am 2 o'r gloch. Mae yna groeso cynnes nid yn unig i'r aelodau ond i ffrindiau o Eglwys eraill fod yn rhan o'n Cymdeithas.

Priodas Aur

Yn ystod y mis dathlodd Vernon a Mary Jones, [Siop V & M gynt] 40A Stryd Fawr eu priodas Aur. Gobeithio i chwi fwynhau'r dathlu.

Priodas Ruddem

Roedd John a Mair Green, Nantgwyn, Heol Llanfair yn dathlu 40 mlynedd o fywyd priodasol yn ystod mis Hydref. Iechyd da eto am flynyddoedd lawer.

60 oed

Bydd Sian Jones, 1 Llys Pedr yn dathlu ei phen-blwydd yn 60 oed ar Dachwedd 23ain. Mwynhewch y dathlu.

Aelwyd yr Urdd

Braf yw gweld criw brwdfrydig o flwyddyn 7 yn mynychu cyfarfodydd Aelwyd yr Urdd eleni. Cynhaliwyd ein cyfarfod agoriadol ar 30 Medi i baratoi rhaglen ar gyfer y tymor. Etholwyd y swyddogion canlynol:

Ysgrifenyddion Nia Haf Thomas a Lowri Aur Davies, Trysorydd Mari Lewis. Diolch i Geinor Medi am gytuno i gario mlaen fel Arweinydd a phleser o'r mwyaf oedd croesawu cyn aelod atom fel is arweinydd sef Delun Evans. Os oes unrhyw un arall yn barod i wirfoddoli, cysylltwch os gwelwch yn dda. Bydd Janet yn parhau i gynorthwyo am y tro. I gloi'r noson cafwyd hwyl yn chwarae gêmâu amrywiol dan gyfarwyddyd Geinor Medi a Delun a Janet yn ceisio cadw trefn ar bawb!

Nos Fawrth 14 Hydref mwynhawyd noson o hwyl Calan Gaeaf yng ngofal Geinor Medi a Delun. Roedd pawb wedi cael amser wrth eu bodd.

Erbyn i Clonc mis Rhagfyr ddod o'r wasg bydd yr aelodau wedi

bod wrthi yn addurno cacennau yng ngofal Dorothy a chymryd rhan mewn noson amrywiol gyda Wyn. Bydd seibiant wedyn ym mis Rhagfyr ac edrychwn ymlaen at ail ddechrau ein gweithgareddau ddiwedd Ionawr.

Oedfa Eciwmenaidd

Nos Iau 20 Tachwedd cynhelir Oedfa Eciwmenaidd yn Noddfa am 7 o'r gloch a'r Parchedig Peter Thomas, Aberystwyth yn gwasanaethu. Estynnir croeso cynnes i aelodau eglwys i'r cylch.

Oedfa Sul yr Urdd

Cynhelir Oedfa Sul yr Urdd eleni yng nghapel Brondeifi nos Sul 23 Tachwedd am 5 o'r gloch. Cymerir rhan gan aelodau'r Adran a'r Aelwyd mewn pennill a chân a rhoddir anerchiad gan y Parchedig Goronwy Evans.

Cesglir tuag at achos da i'w gyhoeddi yn ystod y dyddiau nesaf.

Estynnir croeso cynnes iawn i bawb. Gwerthfawrogi eich cefnogaeth.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

Noddfa

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch Ysgol Sul Noddfa nos Iau 16 Hydref a braf oedd gweld cynulliad teilwng yn bresennol. Yn ôl yr arfer lluniwyd a pharatowyd yr oedfa gan Janet. Hyfryd oedd gweld 24 yn cymryd rhan ar lafar ac ar gân i ddiolch i Dduw am ei holl fendithion yn cynnwys plant, ieuencid a mamau ifanc a phawb ohonynt yn cyflawni eu gwaith gyda graen. Croesawyd pawb yn gynnes gan Dafydd ac ef hefyd gyflwynodd y weddi a'r emyn agoriadol. Cyhoeddwyd yr emynau eraill gan Sioned, Ffion, Rhys Tom, Sion Ifan, Tudur a Rhun. Y llefarwyr oedd Lisa, Beca, Lowri Elen, Llinos, Delyth, Sian Croesor a Helen. Darllenwyd rhan o'r Gair gan Sian Rhandir ac offrymwyd gweddi gan Iona ac Alwena. Bu Gwenllian, Osian Roberts a Sion yn adrodd a chafwyd unawdau gan Lowri Elen, Elan, Sioned a Ffion.

Cyfoethogwyd yr oedfa yn fawr gan bartïon amrywiol gyda Sion Ifan, Gwenllian a Lisa yn canu'r penillion a phleser oedd gwrandao ar gân hyfryd o waith Verina Matthews a geiriau yn clodfori prydferthwch natur gan Beryl Davies a fu farw yn ddiweddar.

Cafwyd cyfuniad o'r digri a'r difri yn y gwasanaeth a phwysleisiwyd y pwysigrwydd o rannu gyda'n cyddyn sy'n dioddef mewn sgwrs gan Tomos ac Osian Jones. Casglwyd gan Tudur a Rhun a thraddodwyd y

Llambled

fendith gan Sion. Yr organydd oedd Owen a chyfeiliwyd i'r plant gan Alwena a Janet.

Talodd ein Gweinidog y Parchedig Jill Tomos deyrnged uchel i bawb am eu gwaith ardderchog, i'r rhieni am eu cefnogaeth ac yn arbennig i Janet am roi o'i hamser a'i hegni i feithrin y plant a'r bobl ifanc. Daeth y plant â chyflenwad o duniau amrywiol ar gyfer Banc Bwyd Llambled a diolchir i bob teulu am eu haelioni.

Aeth pawb o'r oedfa gan deimlo mai da oedd bod yn bresennol mewn gwasanaeth arbennig i gydnabod haelioni Duw.

Cymdeithas Hanes

Croesawodd Selwyn Walters, y Cadeirydd gynulliad da o'r aelodau i gyfarfod mis Hydref yn Hen Neuadd y Coleg.

Siaradwr gwadd y noson oedd Tom Pert sy'n gweithio i Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, ac ar hyn o bryd yn rheolwr datblygiadau ar-lein mapio Cymru 1900 Wales. Disgrifiodd beth yn hollol mae hynny yn ei olygu, sef cael nifer fawr o wirfoddolwyr i astudio mapiau Cymru o'r flwyddyn 1900, a chofnodi pob enw neu air a welir ar y mapiau hynny. Lansiwyd y wefan union flwyddyn yn ôl ac hyd yn hyn mae dros 370 o wirfoddolwyr wedi bod wrthi'n cyflawni'r gwaith yma. Ond mae yna alw am ragor i gymryd

diddordeb yn y gwaith. Mae'n ffordd gyflym o gyflawni gwaith a fyddai'n cymryd blynyddoedd i unigolyn ei wneud, ac mae traean yr holl waith wedi ei gwblhau yn ystod y flwyddyn gyntaf.

Mae prosiect Cynefin sydd newydd gael ei lansio yn waith ar y cyd rhwng y Comisiwn Brenhinol a Llyfrgell Cenedlaethol Cymru. Mae'r prosiect hwnnw yn cofnodi'r enwau a welir ar fapiau'r Degwm a'r dogfennau sy'n cyd-fynd â'r mapiau.

Cafwyd ymateb da gan y gynulleidfa a syniadau'n cael eu cynnig sut i ddenu grwpiau, yn hytrach nag unigolion, i gymryd diddordeb yn y ddau brosiect yma.

Diolchwyd i Tom Pert am noson ddifyr gan y Cadeirydd.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Tachwedd 18fed, pan fyddwn yn cwrdd yn Llyfrgell Roderic Bowen, Coleg y Drindod Dewi Sant ac yn cael ein tywys gan Peter Mitchell. Croeso cynnes i bawb.

Mae'r Calendr blynyddol wedi mynd i'w argraffu a gobeithir y bydd ar werth yng nghyfarfod mis Tachwedd. Thema calendr 2015 yw cofnodi 1915.

Bydd yr Amgueddfa yn cau ddechrau mis Tachwedd dros gyfnod y gaeaf, ond os hoffai grwpiau drefnu ymweliad yn ystod y misoedd nesaf, mae croeso iddynt gysylltu â Mr Selwyn Walters.

Cwmsychpant

Diwrnod Maes C.F.F.I. Ceredigion

Llongyfarchiadau i Beca Jenkins, Hafan y Cwm ac aelod o G FFI Pontsian am ddod yn 3ydd mewn cystadleuaeth Barnu Stoc o dan 14oed yn Niwrnod Maes y Sir ym Mhenparc yn ddiweddar.

Wyres fach

Yn ystod mis Hydref daeth Brian a Mair Potter, Rhoslyn yn dad-cu a mam-gu unwaith yn rhagor. Ganwyd merch, Bela Heulwen, i Cerys a Llŷr yn Nrefach.

Cwrdd Diolchgarwch

Ar noson Hydrefol iawn ganol y mis daeth tyrfâ luosog iawn i Gapel y Cwm unwaith yn rhagor i'r Oedfa Ddiolchgarwch. Llywyddwyd gan Mrs Nanna Ryder yn absenoldeb salwch y gweinidog, ac fe groesawodd pawb yn gynnes iawn i'r Cwm. Ein gweinidog gwadd unwaith yn rhagor oedd Richard Lewis o Bow Street ger

Aberystwyth. Cafodd pawb hwyl enfawr yn ei gwmni ac fe ddaeth â gwahanol fathau o fara gydag e a rhoi cwestiwn i'r gynulleidfa ac fe enillodd Paul Williams, Clynoch lond cwdyn o datws! Teimlodd pawb a oedd yn bresennol ei bod hi wedi bod yn werth chweil iddynt droi mewn i wrando arno yn ei ffordd syml a dealladwy iawn a rhoddodd wên ar wyneb pawb. Wrth yr organ oedd Eleri Jenkins, Bryngolau a diolchodd Mrs Nanna Ryder i bawb am oedfa ddiolchgarwch gofiadwy iawn eleni eto yn y Cwm.

Parti 'Tupperware'

Cynhelir parti 'Tupperware' yn Festri Cwmsychpant nos Wener, Tachwedd 21ain 2014 am 7:30 o'r gloch. Nid oes llawer o sôn wedi bod am y cwmni yma ers slawer blwyddyn bellach ond dewch i Cwm ar y dyddiad uchod ac fe gewch weld yr holl nwyddau sydd gyda nhw i'w cynnig.



Ysgol Sul Capel-y-Cwm

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch yr Ysgol Sul ar brynawn dydd Sul, Hydref 26ain. Braf oedd gweld 12 o blant yn cymryd rhan sef Beca, Lois, Hafwen, Lisa, Luned, Elan, Luc, Elis, Jac, Ela Mablen, Mari ac Ela. Croesawyd y plant gan Mrs Nanna Ryder yn absenoldeb ein gweinidog a diolchwyd iddynt ar y diwedd am eu gwaith da. Cyflwynwyd iddynt hefyd dystysgrifau am eu llwyddiant yn arholiad yr Ysgol Sul yn gynharach yn y flwyddyn. Diolch i bawb a fu yn eu paratoi ac i Carys Griffiths-Jones am gyfeilio ar yr organ.



CELFI CEGIN A 'STAFELL WELY, ATELOGION CEGIN WEDI EU FFITIO, TEILS WAL A LLAWR

DOLGADER,
SGWAR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER
01570 480257

LYN JONES

"At eich gwasanaeth"

- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
 - Symud celfi
 - Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
 - Wedi yswirio'n llawn

01570 481029

Lakefield, Llanybydder
SA40 9RL

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
Cyfeiriad _____
Cod post _____
Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

7		3		9	6		
	1				9		
			7	8	3		
	4				2		
	5		3	7	6		9
		7				5	
		8	2		7		
		4				3	
		9	6		1		4

Atebion Swdocw mis Hydref:
Llongyfarchiadau i **Bethan Williams, Neuadd Fryn, Llanybydder** ar ennill. Bydd bag newydd CLONC ar ei ffordd i chi yn y diwrnodau nesaf.

9	7	6	8	2	3	5	1	4
8	5	4	7	1	9	2	3	6
3	1	2	5	4	6	9	7	8
4	6	8	3	7	5	1	9	2
7	3	1	2	9	8	6	4	5
5	2	9	1	6	4	3	8	7
2	9	5	4	8	1	7	6	3
1	4	3	6	5	7	8	2	9
6	8	7	9	3	2	4	5	1

Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion



Lowri Elen Jones, Bro'r Dderi yn ennill 1af ar yr unawd 21 neu iau; 3ydd Llefaru 21 neu iau; 2il Unawd Sioe Gerdd a hi enillodd Unawdydd Gorau'r Eisteddfod hefyd.



Gethin Morgan, Bro'r Dderi yn ennill y cyntaf ar y llefaru 21 neu iau. Cafodd Gethin a Lowri yr 2il wobwr yn y Ddeuawd Doniol hefyd.



Enfys Hatcher, Llanwenog yn fuddugol ar yr Unawd Alaw Werin a'r llefaru 26 neu iau ynghyd â Llefarydd Gorau'r Eisteddfod.



Nia Morgans, C.Ff.I. Llanwenog 3ydd Canu Emyrn Nofis 26 oed neu iau.



Hanna Davies, C.F. I. Llanwenog a gafodd 3ydd yn yr Unawd a Llefaru 13 neu iau.



Luned Mair, Llanwenog [uchod] 2il a Hedydd Davies, Bro'r Dderi [isod] 3ydd yn Llefaru 26 oed neu iau.



C.Ff.I. Llanwenog 1af - Cân Bop.



Parti Llefaru dan 26oed - "Y Sioe Gyntaf" - gyda Parti Llanwenog yn ennill.



C.Ff.I. Llanwenog yn ennill yr Eisteddfod gyda chlybiau Pontsian yn 2il a Llanddewi Brefi yn 3ydd.

Eisteddfodau lleol



Lois Thomas, Llanllwni yn ennill ar y llefaru 16-21oed yn Eisteddfod Llanarth.



Natalie Plant, Llambled yn gyntaf ar yr unawd 12-16oed yn Eisteddfod Llanarth ac hefyd Unawd 16 oed neu iau yn Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion.



Unawd offeryn cerdd dan 12oed gyda dwy chwaer o Lanwnnen ar y brig - Nia Jones yn gyntaf a Megan yn ail yn Eisteddfod Pumsaint.



Dyfarnwyd Cwpan yr Unawdydd mwyaf Addawol dan 12 yn Eisteddfod Llanarth i Sara Elan Jones, Cwmann. Enillodd hefyd y cyntaf am lefaru, Canu Emyrn, Cerdd Dant, Alaw Werin a Chanu'r Piano dan 12 oed.



Alwena Mair Owen, Llanllwni yn derbyn Cwpan y Llefarydd mwyaf addawol dan ddeuddeg oed wedi iddi ennill cwpan yr unawd a'r llefaru 6-8 oed yn Eisteddfod Llanarth.



Sioned Howells, New Inn yn ennill yr Unawd 12-16oed yn Eisteddfod Pumsaint.

Rhifyn mis Rhagfyr

Yn y Siopau
Rhagfyr 4ydd

Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn
Tachwedd 24ain

Adloniant



Nos Wener, 10fed Hydref, cynhaliwyd Noson Ralio yma yn y Theatr. Roedd hon yn Noson yng Nghwmni cyflwynwyr y gyfres Ralio, sef Emyr Penlan, Lowri Morgan Jones a Howard Davies. Roedd cyfraniad hefyd gan rai o'n sêr lleol, sef John Dalton, Dalton's ATVs, Melvyn Evans, Derwen Garage, Llanwrda a Wyn 'Bach' Thomas. Yr hufen ar y gacen oedd cael cwmni seren ddisglair y byd Motorsport, Elfyn Evans. Roedd gennym hefyd arddangosfa o geir ralio amrywiol o flaen y Theatr. Arddangosfa gwerth ei gweld!

Shwmae Sumae!

Roedd hi'n ddiwrnod Shwmae Sumae! ddydd Mercher, 15fed Hydref ac i ddathlu'r diwrnod eleni cafwyd darlith ar fywyd a gwaith D. Jacob Davies gan Cen Llwyd a ffrindiau. Noson arbennig iawn oedd hon yn llawn haeddu'r 'standin ofeshyn' a gafwyd! Yn ogystal, cynhaliwyd Shwmae Sadwrn fore Sadwrn 18fed Hydref gydag amrywiaeth o weithgareddau yn cynnwys sesiwn stori gyda Pili Pala o Bentre' Bach, dwy sesiwn gyda Heini S4C, sesiwn Gwndinis, te a chacen yn y caffi retro dan ofal Rhieni ac Athrawon Ysgol Gynradd Felinfach a sesiynau blasu gwyddbwyll a gwnïo. Cafwyd criw da yn rhoi cynnig ar y gweithgareddau a dathlu'r Gymraeg yr un pryd!

Ffilm y Mis

Ffilm y Mis ar gyfer Hydref oedd Y Milwr Bychan gyda Richard Lynch, Dafydd Hywel a W J Phillips. Roedd y ffilm yn rhan o gyfres o 6 ffilm Gymraeg rydym wedi eu dewis i ddangos yma dros y 6 mis nesaf er mwyn ail sefydlu'r Clwb Ffilm. Rydym yn awyddus i dderbyn syniadau gennych am brosiectau i'r dyfodol. Cofiwch bydd Ffilm y Mis ym mis Tachwedd, sef Solomon a Gaenor yn cael ei dangos nos Wener, 21ain Tachwedd am 7.30yh.

Y Rhaglen Ddawns

Mae'r Rhaglen Ddawns wedi bod yn brysur yn ystod y tymor newydd ac wedi dechrau sawl prosiect cyffrous. Mae Clwb Cloescio i blant 7-13 oed wedi dechrau ac yn boblogaidd iawn gyda 15 o blant wedi bod yn dod i'r sesiynau wythnosol ac yn joio mas draw! Bydd y sesiynau yn parhau tan wyliau'r Nadolig. Os hoffech chi ymuno, mae'r sesiynau yn digwydd bob nos Fercher, 6.30-7.15 yn y Theatr ac yn £3.00 i bob plentyn.

Bydd Clwb Gwndinis i blant 4-6 oed a'u rhieni yn ail ddechrau dydd Mawrth, 11 Tachwedd rhwng 4.00 a 5.00. Mae'r sesiynau yn £2.00 i bob plentyn. Mae'r sesiynau dwyieithog hyn yn cynnwys dawnsio, canu, crefftau a stori.

Peidiwch chwaith ag anghofio am ein sesiynau wythnosol eraill, sef

Ioga i bawb o 14+ oed ar nos Fawrth rhwng 5.30 a 6.30. Y pris yw £3.50 y person. Hefyd sesiynau TicToc, sef stori, dawns a chan yn y Gymraeg i blant bach rhwng 0 a 3 oed. Y pris yw £2.00 i bob plentyn.

Ym mis Tachwedd, bydd Catherine, Swyddog Dawns Theatr Felinfach yn cyflwyno papur mewn cynhadledd genedlaethol o'r enw 'People Dancing.' Bydd hi'n trafod ei gwaith yn Theatr Felinfach sy'n cynnwys Dawns yn y Gymuned.

Am wybodaeth bellach am Raglen Ddawns Theatr Felinfach, cysylltwch â Catherine Young, Swyddog Dawns, Theatr Felinfach Catherine Young, Catherine.Young@ceredigion.gov.uk 01545 572708

Y Pantomeim

Mae Cwmni Actorion Theatr Felinfach yn brysur iawn yn paratoi at y pantomeim blyneddol ar hyn o bryd! Blwyddyn nesaf byddwn yn dathlu 100 mlwyddiant geni T. Llew Jones ac mi fydd y Panto eleni yn ddechrau ar y dathliadau. Mae arwyr T. Llew yn ysbrydoliaeth i'r stori ac mi fyddwn yn gweld y cymeriadau yma'n dod yn fyw ymysg Criw Dyffryn Aeron. Ond mae'r Dynion Drwg wrthi unwaith yn rhagor ac yn llawn drygioni. Edrychwn ymlaen at eich croesawu i'r Theatr i weld C.C.C.C.C O! ÉC! Bydd y Panto'n rhedeg o Sadwrn 6ed i'r 13eg Rhagfyr.

Tocynnau a gwybodaeth bellach ar gael drwy ffonio'r Swyddfa Docynnau 01570 470697 neu www.theatrfelinfach.com

ANGEN EICH HELP

Rydym yn gyffrous iawn yma am inni gyrraedd y rhestr derfynol ar gyfer cystadleuaeth Miliynau'r Bobl. Ewch i dudalen benodol y gystadleuaeth i gael mwy o wybodaeth am y gystadleuaeth. Rydym wedi ymgeisio am arian i gael adnewyddu'r Gwndwn, ein gofod ymarfer ar waelod y maes parcio. Mae e'n adeilad sy'n cael defnydd helaeth ar gyfer nifer o brosiectau'r Theatr ond mae hefyd yn cael ei ddefnyddio gan nifer fawr o fudiadau allanol. Helpwch ni i ennill y gystadleuaeth drwy bleidleisio am ein prosiect. Y prosiect â'r mwyaf o bleidleisiau fydd yn ennill, felly helpwch ni i ledaenu'r neges mor eang ag sy'n bosibl. Y diwrnod holl bwysig i bleidleisio yw 24ain Tachwedd rhwng 9yb a hanner nos. Bydd newyddion ITV Cymru yn darlledu ffilm fer amdanom ar y prif newyddion ac ar bob noson bleidleisio bydd dau brosiect yn cystadlu yn erbyn ei gilydd i ennill y bleidlais gyhoeddus a sicrhau ariannu ar gyfer eu prosiect. Cyhoeddir y rhifau ffôn holl bwysig ddydd Llun, 24ain Tachwedd. Dyma'r linc i'r dudalen

<http://www.peoplesmillions.org.uk/2014-finalists/wales>

Cohebiaeth

Annwyl Ddarllenydd,

Dyma dynnu eich sylw at gynllun newydd sydd o dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a allai fod o ddiddordeb ichi.

Mae Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor wedi dod at ei gilydd i greu cyrsiau newydd ar y we trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob math o feysydd—o Hanes i Seicoleg, o Athroniaeth i Ffotograffiaeth, o Sgiliau Iaith i Gerddoriaeth. I weld y dewis eang o gyrsiau sydd eisoes ar gael ewch ar y we: www.colegcymraeg.ac.uk/dysguobell

Mae'r cyrsiau hyn i gyd ar gael i bawb dros 17 oed, a does dim rhaid bod ar y campws i'w hastudio oherwydd bod y cyrsiau hyn i gyd ar y we.

Os ydych chi am ddatblygu sgiliau yn y gweithle neu ddilyn pwnc sydd o ddiddordeb ichi mae hwn yn gyfle ardderchog.

Fel arfer, mae pob cwrs yn costio £120 yr un, ond mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn barod i gynnig lle yn rhad ac am ddim i'r 20 unigolyn cyntaf sy'n cofrestru am bedwar cwrs (gwerth £480).

Y cyntaf i'r felin gaiff falu.

Ewch i wefan y Coleg (www.colegcymraeg.ac.uk/dysguobell) i gael ffurflen gofrestru a danfonwch hi cyn gynted ag y bo modd. Y dyddiad cau yw 12 Ionawr 2015.

I gael rhagor o fanylion neu i drafod hyn ymhellach mae croeso ichi gysylltu â mi ar y ffôn neu drwy e-bost (01970 62 8474 / owt3@aber.ac.uk).

Yn gywir,

Dr Owen Thomas

(Cyfarwyddwr y Cynllun Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg Rhan-amser)

Gwefannau Cymunedol:

Capel Bethel Parcyrrhos: www.bethel.btck.co.uk
Cerddorfa Siambr Llambled: www.lampeter-orchestra.co.uk
Clwb Cledlyn: www.clwb-cledlyn.org.uk
Clwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog: www.cffillanwenog.org.uk
Clwb Moduro Llambled a'r ardal: www.ldmc.org.uk
Clwb Rygbi Llambled: www.clwbrygbillambled.org
Coleg Llanbed: www.ydrindoddewisant.ac.uk
Côr Meibion Cwmann: www.corcwmann.btck.co.uk
Côr Merched Côrisma: www.corisma.btck.co.uk
Cyngor Tref Llambled: www.lampeter-tc.gov.uk
Cymdeithas Cerdd Llambled: www.lampetermusic.co.uk
Ffair Fwyd Llambled: www.lampeterfoodfestival.org.uk
Ffair Ram: www.ffairram.btck.co.uk
Ffarmers: www.ffarmers.org
Gwenynwyr Llambled: www.lampeterbeekeepersassociation.co.uk
Llanfair Clydogau: www.llanfairclydogau.co.uk
Llanllwni: www.llanllwni.co.uk
Llanybydder: www.llanybydder.org.uk
Menter Llambled: www.lampeter.org
Neuadd Mileniwm Cellan: www.cellanmillenniumhall.co.uk
Papur Bro Clonc: www.clonc.co.uk
Plwyf Llanwenog: www.plwyflanwenog.com
Pwll Nofio Llambled: www.lampeterpool.com
Sgowntiaid Llambled: www.1stlampeter.co.uk
Transition Llambled: www.transition-llambled.org.uk
Y Ford Gron Llambled: www.lampeterroundtable.org.uk
Ysgol Bro Pedr: www.bropedr.ceredigion.sch.uk
Ysgol Carreg Hirfaen: www.carreghirfaen.amdro.org.uk
Ysgol Cwrtnewydd: www.cwrtnewydd.ceredigion.sch.uk
Ysgol Ffynnonbedr: www.fffynnonbedr.ceredigion.sch.uk
Ysgol Llanwenog: www.ysgolllanwenog.co.uk
Ysgol Llanwnnen: www.ysgolllanwnnen.co.uk
Ysgol y Dderi: www.ydderi.ceredigion.sch.uk

Os am addasu'r rhestr, anfonwch ddolen at cadeirydd@clonc.co.uk

Drefach a Llanwenog

C.Ff.I. Llanwenog

Gyda'r dyddiau yn dechrau byrhau a'r dail yn dechrau newid eu lliw mae'r gaeaf wedi cyrraedd ac mae hynny'n golygu un peth, fod Eisteddfod y CFFI bron â bod yma. Bydd yr Eisteddfod yn cael ei chynnal ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid ar y 1af o Dachwedd, a thrwy gydol mis Hydref mae Clwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog wedi bod yn brysur yn paratoi. Ar y 27ain o Fedi cynhaliwyd Diwrnod Maes y sir ar fferm Hafod, Ferwig. Fe fu yn ddiwrnod hynod o llwyddiannus i'r clwb, gyda Twm Ebbsworth yn ennill y wobwr 1af yn y gystadleuaeth barnu stoc o dan 14, Menna Williams yn 2il yn docio oen, Iwan Evans a Twm Ebbsworth yn 2il wrth addurno coeden Nadolig a'r clwb yn gyntaf yng nghystadleuaeth y ciwb. Llongyfarchiadau i'r canlynol am gael eu hethol yn swyddogion yn y sir: Geraint Hatcher am ddod yn Llywydd y sir, Meinir Davies yn drysorydd newydd y Fforwm Ieuenticid a Enfys Hatcher am gael ei hethol yn is-gadeirydd y Pwyllgor Gweithgareddau. Roedd noson i aelodau dan 18 yn Neuadd Pontsian ar y 6ed o Hydref a noson o chwarae bowls oedd o flaen yr aelodau ar y 13eg. Ar yr 20fed cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch blynyddol y clwb yng Nghapel y Bryn, Cwrtnewydd. Diolch i'r sawl a ddaeth i gefnogi'r clwb ac i'r aelodau am ddod â ffrwythau a llysiau ar gyfer y noson a roddwyd i Gartref Maesyfelin, Drefach.

Os ydych eisiau rhagor o wybodaeth am y clwb, neu â diddordeb ymuno, ewch i'n gwefan sef: www.cffillanwenog.org.uk

Priodas Berl

Dathlodd Richard a Margaret Thomas, Llechwedd eu Priodas Berl ddechrau mis Hydref. Gobeithio eich bod wedi dathlu mewn steil!

Merch fach

Llongyfarchiadau i Cerys a Llŷr Jones, Glynfaes ar enedigaeth merch fach, Bela Heulwen ar Hydref 13eg, chwaer fach i Erin a Noa. Dymuniadau gorau i chwi fel teulu.

Pen-blwydd Arbennig

Ddechrau mis Tachwedd dathlodd Mrs Nans Evans, Dol-hardd ben-blwydd arbennig yn 60 oed. Gobeithio i chwi fwynhau eich diwrnod.

Eglwys Santes Gwenog

Braf oedd gweld yr eglwys yn gyfforddus lawn yng ngwasanaeth blynyddol 'Diolchgarwch y Cynhaeaf'. Ein ficer gwadd eleni oedd y Parchedig N. Reid, Llandysul. Diolchwyd iddo am ei neges bwrpasol gan y

Parchedig Suzy Bale. Wedi'r oedfa mwynhawyd swper ardderchog yn yr eglwys fach wedi ei baratoi gan y gwragedd. Derbyniwyd cymeradwyaeth a gwerthfawrogiad am y wledd flasus gan y Ficer. Derbyniodd aelodau Cymdeithas yr Allor werthfawrogiad am y trefniadau tymhorol o flodau a llysiau, y cyfan yn creu naws hydrefol a hyfryd.

Bu plant ac athrawon ysgol Wirfoddol Cymorthedig Llanwenog yn cynnal eu gwasanaeth diolchgarwch hwythau yn yr eglwys. Cafwyd prynhawn o bleser llwyr yn gwrando ac yn edmygu eu doniau llafar a cherddorol - o'r plentyn lleiaf at yr hynaf. Roedd côr o fechgyn wedi ein swyno yn llwyr. Fechgyn, beth am gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd y flwyddyn nesaf? Ein diolch diffuant i'r Pennaeth a'r athrawon am eu hyfforddiant trylwyr ac am sicrhau fod pob plentyn â rhan yn y gwasanaeth.

Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Eleanor Clive Powell. Hi oedd yr olaf o hen linach Davies-Evans, Plas y Dolau (Highmead). Cydymdeimlwn â'i mab, Roger Clive Powell a'i deulu, ac hefyd â'i merch, Mrs Sarah Lundsden, Sherborne, Dorset a'i theulu hithau.

Cofiwn am Mrs Bronwen Jones, Greenhill sydd yn Ysbyty Gymunedol Llanymddyfri. Dymunwn wellhad buan iddi a gobeithiwn ei gweld yn dychwelyd adref yn y dyfodol agos.

Cydymdeimlwn â phawb sydd wedi colli anwyliad yn ddiweddar. Yr ydym yn meddwl amdanoch.

Clwb 100 Awst. £15 Jeff a Carol Thomas, Drefach; £10 Kate Clive-Powell, Pombrendu; £5 Oliver Abbot, Portishead.

Medi. £15 Arwyn Jones Gellideg; £10 Kate Clive-Powell; £5 Margaret Griffiths, Crugywhil.

Hydref. £15 Janet Davies, Cwmsychbant; £10 Charlotte (Mellor), Llambedy; £5 Phill Tipping, Llanwenog.

Mae Mrs Lynne Goodall yn gofyn am eich cyfraniad i'r Clwb 100 erbyn diwedd Hydref neu ddechrau mis Tachwedd. Croeso cynnes i aelodau newydd ymuno - y tâl am aelodaeth yw £10 y flwyddyn.



Roedd 'na gyfle i Margaret Evans (dde) hel atgofion am iddi fod yn usherette yn y dyddiau pan oedd ffilmiau'n cael eu dangos yn Neuadd Victoria. Mae Margaret yn cael sgwrs gyda rhai o selogion y pumdegau a'r chwedegau - John ac Elisabeth Warmington, Morfudd Slaymaker a Dilwen Roderick.

Llanwnnen

Seren y Sgrîn

Braf yw gweld Angharad James, Castell Du yn un o'r deg sy'n cystadlu ar y rhaglen deledu 'Fferm Ffactor' eleni. Pob lwc i ti Angharad gyda'r tasgau amrywiol y bydd gofyn i ti eu cwblhau a gwna dy orau i ennill y teitl 'Fferm Ffactor 2014' gan ddod â'r 4x4 Isuzu D-Max Yukon yn ôl i Gastell Du.

Gwellhad Buan

Yn ystod y mis bu Mrs Mary Richards, Lowtre yn derbyn llawdriniaeth yn ysbyty Glangwili. Gobeithio eich bod lawer yn well erbyn hyn.

Priodas Dda



Llongyfarchiadau i Dafydd Bowen, Delyn Aur a Lisa Batchelor, Y Fforest Newydd, Swydd Hampshire ar eu priodas ar 18 Awst, 2014 yng Ngwesty Gwledig Eastclose, Christchurch. Treuliodd y pâr hapus eu mis mêl yn y Maldives ac maent wedi ymgartrefu yn Southampton. Pob hapusrwydd i chi i'r dyfodol.

Diolch

Dymuna Mary Richards, Lowtre ddiolch yn fawr i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am eu holl gonsym tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar, ac wedi dod adref. Diolch am yr holl alwadau ffôn,

cardiau, a rhoddion. Gwerthfawrogi'r cyfan yn fawr iawn.

Ysgol Llanwnnen

Bu plant Dosbarth Mr Ebbsworth yn cymryd rhan yng ngweithgaredd Jambori yr Urdd. Cafwyd prynhawn o ganu a dawnsio yng Nghanolfan yr Urdd, Llangrannog. Roedd pawb wedi mwynhau mas draw.

Diolch i'r holl blant a ddaeth â bocsys sgidiau yn llawn anrhegion i blant mewn gwledydd llai ffodus yn rhan o gynllun 'Joy in a Box'.

Diolch hefyd i bawb a fu mor garedig yn casglu ar gyfer 'Bags 2 school' yn ystod mis Medi.

Bu plant yr ysgol ar drip yn ddiweddar i Theatr Felinfach yn rhan o'u cwrs Gwyddoniaeth i weld sioe wyddonol arbennig, Experimentics. Cafwyd amser da gyda'r disgyblion yn dysgu llawer.

Bu disgyblion y dosbarth babanod mewn gweithdy sgiliau syrcas gyda Rhydian o'r Urdd yn ddiweddar. Roedd yn gyfle da i ddysgu mwy am bethau sydd yn ein diddori.



Llongyfarchiadau

Dyma lun o Heledd Jenkins, Llysaen Uchaf. Bu'n cystadlu mewn Cystadleuaeth Agored (Tumbling) i ferched oed 12/13 yng Nghlwb Gymnasteg Aberystwyth ar y 26ain o Hydref ac fe ddaeth yn 3ydd allan o 21.

Sinema'r Magic Lamp



Roedd 'na gyfle i Margaret Evans (dde) hel atgofion am iddi fod yn usherette yn y dyddiau pan oedd ffilmiau'n cael eu dangos yn Neuadd Victoria. Mae Margaret yn cael sgwrs gyda rhai o selogion y pumdegau a'r chwedegau - John ac Elisabeth Warmington, Morfudd Slaymaker a Dilwen Roderick.



Agorwyd Sinema'r Magic Lamp yn swyddogol yn Neuadd Victoria gan y Maer, Y Cynghorydd Elsie Dafis. Gyda hi mae Margaret Evans a oedd yn arfer bod yn usherette yn ystod y 50au a'r 60au.

Gyda nhw mae'r trefnydd, Chris Studman.

Llangybi



Cafwyd wythnos i'w chofio yn yr heulwen ym Mhentywyn. Bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn mwynhau syrffio, cerdded afon, canwio, saethyddiaeth, rhaffau uchel, gwifren "zip", abseilio, yn ogystal â mwynhau diwrnod yng ngerddi Bosherton a Chastell Penfro.



Plant y Cyfnod Sylfaen wedi gwisgo hetiau er mwyn codi arian i elusen Parkinson's. Roedd pawb yn edrych yn hynod o smart yn eu hetiau amryliw.

Ysgol Y Dderi

Yn rhan o'n thema am yr hanner tymor cyntaf, "Hapusrwydd" daeth Phillipa Davies o elusen Parkinsons UK i siarad â disgyblion y Cyfnod Sylfaen i gyflwyno'r stori "Mae gan fy Mamgu Parkinsons". Yn dilyn y sgwrs, penderfynodd y plant gynnal diwrnod Defnyddiwch eich Pen, yr ysgol gyntaf ym Mhrydain i gynnal diwrnod o'r fath. Bu'r plant yn rhoi cyngerdd i'w rhieni ac yn codi tâl am ddiod a chacennau. Codwyd dros £750 tuag at yr elusen. Roedd pawb yn edrych yn hynod o smart yn eu hetiau amryliw.

Daeth 21 o ddisgyblion ac 12 o athrawon o Norwy, Yr Eidal a Thwrci i'r ysgol am wythnos, er mwyn cynnal ein cyfarfod Comeniws. Trefnwyd amrywiaeth o weithgareddau megis diwrnod rhyngwladol, ymweliad â Gerddi Botaneg Cymru a'r pinacl oedd paratoi eitem deledu ar gyfer Heno, sef rap rhyngwladol a gyfansoddwyd gan y plant a Bardd Plant Cymru, Aneurin Karadog.

Yn rhan o'u thema "Drachtiau", aeth disgyblion blwyddyn 5 a 6 i ymweld â Llyn y Fan Fach. Darllenwyd stori chwedl morwyn Llyn y Fan, ac yna aeth y plant i Ganolfan Ymwelwyr Myddfai i glywed Mr Shake yn siarad am nodweddion llesol planhigion a hanes Meddygon Myddfai. Bu'r

plant yn ymweld â charreg fedd un o ddisgynyddion Meddygon Myddfai yn Eglwys Sant Mihangel. Diwrnod i'r brenin!

Yn dilyn hyn, bu'r plant yn creu Eli Melyn Mair ac Eli Camffri gyda Mrs Christine Stephenson, meddyg llysieuol, ac mi fydd yr eli ar werth mewn siopau amrywiol cyn hir! Cawson hefyd y cyfle i greu Sawr Dysgu! Sawr yn cynnwys mint a rosmari sy'n dda iawn ar gyfer canolbwyntio a chofio!

Cawsom fwrllwm o weithgareddau i ddathlu diwrnod T. Llew Jones gan gynnwys gwasanaeth boreol arbennig, gwerthfawrogi cerddi a chwarae gwyddbwyll, un o hoff ddiddordebau T. Llew Jones. Bu disgyblion yr ysgol yn dathlu diwrnod Roald Dahl trwy amryw o weithgareddau megis creu ffeil ffeithiau, ysgrifennu ryseitiau breuddwydion, gwisgo fel y BFG, ac yfed Froboscottle!

Croeso i ymwelydd arbennig o Tsieina atom sef Miss Ting Xin. Mi fydd hi'n dod i gynnal gwersi yn yr ysgol am un diwrnod yr wythnos am y flwyddyn academiaidd. Edrychwn ymlaen at gydweithio gyda hi.

Diolch i'r holl blant a ddaeth â Back Packs chwaethus i'r ysgol fel rhan o gynllun y Clwb Rotari i ddarparu adnoddau ysgol i blant llai ffodus yn Affrica.

Bu cerddorfa werin Tsieinaidd yn

perfformio yn yr ysgol yn ddiweddar a chafwyd cyngerdd rhyngweithiol bendigedig.

Daeth Bysgwyr Gwyddoniaeth i ddiddanu disgyblion blwyddyn 3 a 4. Cafwyd cyflwyniad rhyngweithiol a bywiog yn llawn cysyniadau gwyddonol.

Cynhaliwyd tri chwrrd diolchgarwch. Bu'r Cyfnod Sylfaen yn Eglwys Llangybi; Cyfnod Allweddol 2 yn Eglwys Gartheli; a bu pawb yn diddanu'r henoed yn yr ysgol.

Bu disgyblion blwyddyn 3 a 4 yn Theatr Felinfach yn mwynhau sioe Science made Simple. Hefyd, yn rhan o'u thema Esgym, Gwaed a Darnau Gwaedlyd, daeth Dr Siôn James i'r dosbarth i siarad am y corff. Cafwyd prynhawn addysgiadol a buddiol iawn yn ei gwmni.

Daeth PC Alun Jones a PC Jackie o'r heddlu i gynnal sgwrs gyda disgyblion blwyddyn 5 a 6 am beryglon cyffuriau. Cafwyd cyflwyniad bywiog i gyfleu neges bwysig yn glir iawn.

Hamdden

Cafwyd prynhawn diddorol llawn gwybodaeth pan ddaeth Mrs Anthea Jones i'r gymdeithas. Bu yn sôn am y gwaith mae Gofal a Thrwio Ceredigion yn ei gyflawni, ac yr oedd y wybodaeth o fudd mawr i lawer o'r aelodau. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch gwresog i'r wraig wadd gan Janet Farrow. Enillwyd y raffl gan Ann Bennet, Barry Williams, Anthea Jones, Joan James, Joyce Harris, Rowena Williams, Mair Spate a Rita Jones. Cafwyd paned o de a bisgedi i ddiweddu'r cyfarfod wedi eu rhoi gan Alunda a Rita Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Gwener, Tachwedd 7fed am 2.00y.p. yn Ysgol Y Dderi pan fydd cynrychiolydd o Gymuned Longwood yn rhoi ychydig o hanes y prosiect. Os oes diddordeb gennych mewn hanes lleol, dewch i gymdeithasu dros baned. Croeso.

Merched y Wawr

Cyfarfu'r gangen ar Hydref 15fed ac yr oedd yn noson agored ac fe dreuliwyd orig ddiddorol yng nghwmni y Fon. Bronwen Morgan. Cafwyd ganddi atgofion am goelion cefn gwlad a phawb wedi mwynhau ac ail fyw yr hyn roedden nhw yn ei gofio hefyd. Diolchwyd iddi yn gynnes iawn am noson gofiadwy gan y Cyng. Odwyn Davies.

Ar gyfer y cyfarfod nesaf rydym yn disgwyl arddangosfa goginio gan Rhonwen Thomas. Rhoddwyd y raffl gan Eleanor Evans, Gwyneth Evans a Mair Spate ac fe'u henillwyd gan Rhithwyn Evans, Iris Quan ac Odwyn Davies. I ddiweddu'r cyfarfod cafwyd paned o de a bisgedi wedi eu rhoi gan Mary Jones a Mair Spate.

Gofynnir am
gyfraniad o

£5

yn unig er mwyn rhoi
neges o ddiolch ym
Mhapur Bro Clonc
os gwelwch yn dda.



Rhodri Price, John Heath, Osian Morgan, Bryn Thomas, Bradley Lewis, Ben Davies a Lee Davies [yn absennol o'r llun].

Tim Iau Clwb Golff Cilgwyn a enillodd y 'Junior Ceredigion League' eleni. Llongyfarchiadau fechgyn! Daliwch ati. Diolch i Rhys Evans, Karen a Kevin Bayliss am eu hyfforddi.

Yn y Gegin gyda Gareth



Tato Trwy'u Crwyn Mis Tachwedd

Y mis yma wrth i ni ymweld â Tân Gwylt efallai, cerdded allan yn yr awyr agored yn mwynhau hyfrydwch yr Hydref, a'r dyddiau'n byrhau, does dim mor gysurlawn a blasus na thaten wedi ei phobi. Beth am fynd gam ymhellach a bod yn fwy creadigol drwy arbrofi gyda llenwadau gwahanol ac amrywiol. Medrwn eu paratoi ymlaen llaw a'u coginio mewn byr amser am swper cyflym, cynnes a blasus.

Y tato gorau yw'r King Edward, Maris Piper, a thato mawr sydd yn addas i'w pobi. Dyma rai syniadau i chi - rhwch gynnig arnynt.

Pob hwyl wrth bobi'r tato.

Gareth

Dyma rai o fy hoff llenwadau i:

Bacwn, Cennin a Chaws

Cynhwysion

- 1 genhinen
- 4 sleisen o facwn wedi'u coginio
- 4 taten fawr
- 2 llwy fwrdd Crème Fraiche
- 75 gm o gaws Cheddar wedi gratio
- Ychydig sibwns.

Dull

1. Trowch y ffwrn i 200 C. Golchwch y tato, gwnewch dyllau â fforc drostynt, brwsiwch ag olew'r olewydd i'w gwneud yn grisp. Yna coginiwch ar hambwrdd pobi am tua 1 ¼ awr.
2. Tynnwch y cnawd o'r tato, rhwch mewn powlen a'u stwnsio.
3. Sleisiwch y genhinen a'i ffrio mewn ychydig olew; ychwanegwch i'r tato gyda'r bacwn wedi'i dorri'n fân, y creme fraiche, caws a'r sibwns. Defnyddiwch i lenwi croen y tatws, a rhoi yn y ffwrn am tua 15 munud.

Llenwad Mecryll

At y tato, ychwanegwch fecryll wedi ei fygu a'i falu, gyda hanner pot o iogwrt Groegaidd, sudd 1 lemn, 1 llwy de o farch-rhyddygl (Horse Radish), a diferion saws Tabasco. Llenwch y cregyn tato; pobwch am 15 munud.

Llysiau a chaws

Coginiwch ychydig o bys a brocoli. At y stwnsh tato ychwanegwch y llysiau, ychydig o gorn melys, a chaws wedi ei gratio. Gosodwch nôl yn y crwyn gyda thomato bach wedi'i sleisio ar y top. Pobwch am 15 munud.

Llenwad bacwn a madarch

Ffriwch ychydig o fadarch a bacwn wedi'i sleisio, yna cymysgwch at y tato gyda 2 llwy fwrdd o creme fraiche, llwy de o fwstard grawn, a digon o gaws wedi'i gratio. Rhwch y llenwad nôl yn y crwyn. Pobwch am 10 munud.

Llenwad corn bïff

At y stwnsh tato ychwanegwch corn bïff wedi'i giwbio, tri sibwnsyn wedi'u sleisio, 1 llwy fwrdd o saws brown, ychydig o saws Caerwrangon (Worcester Sauce), ac ychydig o bersli wedi'i dorri'n fân. Llenwch y crwyn tato a choginiwch nes eu bod yn gynnes.

Y mis nesaf byddaf yn paratoi ar gyfer y Nadolig, ac yn rhoi sylw i fy llyfr coginio newydd.

O.N. Byddaf yn coginio ac yn addurno Cacennau Nadolig ar 'Prynhawn Da' ddydd Llun, Tachwedd 10fed



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

*Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion*

Colofn Cefn Cwlad

gan Helen Howells,



Hen Ffeiriau Mis Tachwedd

Wel, mae'r tywydd a'r cloc wedi troi! 'Y Dyddiau duon bach' a elwir mis Tachwedd gan drigolion uwchben Llŷn sy'n ddisgrifiad go dda. Sdim rhyfedd bod ein cyndeidiau yn dathlu gwyliau lliwgar llawn miri i godi'r ysbryd dynol yn ystod yr adegau diflas yma. Ac mae'r traddodiad yn dal yn yr ardal wrth i'r mudiad Ffermwyr Ifanc gynnal eu heisteddfodau sirol yr adeg yma o'r flwyddyn.

Ar droad y ganrif ddiwethaf mi fyddai'r ffeiriau wedi chwarae rhan bwysig yn niwylliant cefn gwlad. Mi fyddai'r Ffeiriau Cyflogi yn bwysig iawn yn y calendr amaethyddol gyda gweision neu forynion yn cael eu cyflogi am y flwyddyn i ddod. Yn ardal Llanybydder roedd Ffair Santesau a Ffair Fartin yn ddigwyddiadau mawr. Mi wnaeth fy Nhacdu gwrdd â Mamgu yn Ffair Llanybydder er nad wy'n siŵr pa un! Mi roedd Tadcu wedi beicio'r holl ffordd o Ffair Rhos, ger Bont, a daeth o hyd i Mamgu, oedd yn forwyn i'w hwnawl ar fferm yn ardal Llanybydder. Ond gyda chymaint o sôn am Ffair Llanybydder, gallai'r stori yma fod yn wir am sawl teulu yn yr ardal.

Arferid cynnal Ffair Santesau yn Llanybydder ar y 1af o Dachwedd. Dywed rhai bod yr enw'n tarddu o hen gastell Santesau a leolir uwchben y pentref, tuag at Alltbylaca. Ond mi all yr enw deillio o'r ffaith bod Gŵyl yr Holl Seintiau yn cael ei dathlu ar y dyddiad yma yn y Calendr Cristnogol. Mi oedd Nos yr Holl Seintiau yn ŵyl ac yn amser i wleda. Treuliwyd y dydd mewn digrifwch a llawenydd gan roi'r gwaith naill ochr. Yn y nos, cynheuwyd coelcerthi mawr a deuai cymdogion at ei gilydd gyda'r ifanc yn dawnsio'n sionc i gerddoriaeth y delyn. Swnio'n o debyg i Eisteddfod y Ffermwyr Ifanc! Ac mae'r sôn am gynnu coelcerth ym mis Tachwedd yn un cyfarwydd, ond yw e? Mi fyddai Ffair Santesau yn o debyg i sawl ffair debyg ar draws Cymru ond yn dipyn fwy o seis! Cyfle i ffermwyr yr ardal ddod i werthu buwch neu ddwy i gael arian mewn llaw i dalu cyflogau gweision ac i dalu unrhyw ddyledion oedd angen eu setlo. Dwywaith y flwyddyn y byddai ffermwyr yn arfer talu eu biliau - sef yn ffeiriau G'lanmai a Ch'langaeaf. Rwy'n siŵr fod yna sawl un sy'n dal i gadw at yr hen arferiad!

Cynhelir Ffair Fartin rhyw bythefnos ar ôl Ffair Santesau a thybiaf y daw'r enw o Ŵyl Fartin a ddethlir ar yr 11eg o Dachwedd. Yn ogystal â bod yn nawddsant Ffrainc, Martin o Tours yw nawddsant cardotwyr, wedi'r stori iddo dorri ei glogyn yn ddau gyda'i gledd milwrol a'i rannu gyda thlotyn yng nghanol y Gaeaf. Mae hynny'n addas gan mai bywyd go llwm oedd o flaen rhai o'r gweision yr adeg hynny. Mae Martin o Tours hefyd yn sant i nyddwyr gwlân a thafarnwyr, sy'n cydfynd yn o dda gyda Ffair Fartin, Llanybydder! Gan ei bod yn cwmpo rhwng yr 11eg a'r 13eg, y Ffair Gyflogi neu'r Ffair G'langaeaf, y bydden i'n tybied oedd yr hen Ffair Fartin. Yn Sir Gar, mi fyddai cyfnod cyflogi gweision yn para blwyddyn o G'langaeaf i G'langaeaf. Roedd 'na lawer o amrywiaeth o ardal i ardal yn adlewyrchu'r gwahanol waith yn ystod y flwyddyn. Gweithio gyda'r cnydau a'r cynaeafu yn ystod yr Haf a phorthi'r anifeiliaid, teilo ac aredig dros y Gaeaf. Noson y ffeiriau oedd 'noson clymu'r gwartheg' gan fyddai'r gweision ar gael i borthi'r anifeiliaid. I'r gweision, mi fyddai'r ffeiriau yn llawn hwyl! Ar ôl byw ar ffermydd dan amgylchiadau caeth mi fyddai cael rhyddid ac arian yn eu poced yn ffrainc. Os oeddent yn gall, mi fyddent yn prynu pethau hanfodol, fel sgidiau neu ddillad newydd. Ond os oedd rhywfaint yn sbâr, byddent yn ei wario ar gael hwyl! A dyma darddiad y traddodiad o fynd i'r ffair i gael hwyl ar y Carwsél, y Big Wheel ac ati.

Os ydych chi'n gwybod am hanes hen ffeiriau tebyg i Ffair Llanybydder, cysylltwch â Chlonc. Mi fyddai diddordeb mawr gennyf i wybod mwy.

Llanybydder



Treuliodd nifer o ddisgyblion bl 4, 5 & 6 bum diwrnod ym Mhentywyn ddechrau'r mis. Er nad oedd y tywydd yn ffafriol iawn ar adegau, cafodd pawb amser da dros ben. Roedd pawb wrth eu bodd yn cymryd rhan yn y gwahanol weithgareddau.

Ysgol Gynradd Llanybydder

Cynhaliwyd bore coffi Macmillan yn yr ysgol ar y 26ain o Fedi. Roedd yn fore llwyddiannus a chodwyd swm sylweddol o arian tuag at yr achos teilwng yma. Diolch yn fawr i'r rhieni am gyfrannu cacennau ac i bawb a ddaeth i'n cefnogi.

Derbyniodd yr ysgol y gwahoddiad i 'Gyfarfod Diolchgarwch' Capel Aberduar ar y 15fed o Hydref. Cafwyd ychydig o eitemau gan y plant. Diolch i'r Capel am y gwahoddiad ac i'r rhieni a ddaeth i'n cefnogi.

Llongyfarchiadau mawr i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen - maent wedi ennill 'Y Wobr Aur' am 'Y Cynllun Gwên' - sef cynllun sy'n annog plant i frwsio'u dannedd yn rheolaidd ac yn gywir. Cawsant eu gwobrwyo yn ddiweddar. Da iawn chi blant - daliwch ati i edrych ar ôl eich dannedd.

Bore dydd Gwener Hydref 17eg, ymunodd disgyblion o Ysgol Carreg Hirfaen ac Ysgol Llanllwni â ni yn yr ysgol i weld perfformiad o sioe 'Buddug Brenhines y Brwydro.' Roedd yn bleser croesawu pawb ac roedd y sioe'n ddiddorol tu hwnt.

Dydd Gwener 24ain o Hydref, bu rhai o'r disgyblion hŷn yng Nghartref Nyrsio Alltymynydd i ddiddanu'r preswylwyr. Mae bob amser yn bleser cael mynd a rhoi rhywfaint o fwynhad i'r henoed.

Mae pawb yn edrych ymlaen at wythnos o wyliau - seibiant bach cyn dod yn ôl i dymor prysur y Nadolig. Mwynhewch y gwyliu bawb!

Merched y Wawr

Croesawodd y llywydd Linda Thomas bawb i gyfarfod cyntaf y tymor nos Lun Medi 29ain yn Festri Aberduar. Cydymdeimlodd â nifer o aelodau oedd wedi colli anwyliad yn ystod yr Haf. Croesawodd wyres fach gyntaf Linda Davies a llongyfarch Susan Evans ar ei llwyddiant yn ddiweddar. Bu rhai o'r aelodau yn mwynhau penwythnos Merched y Wawr yn y Brifysgol yn Llanbedd a fu'n llwyddiannus iawn.

Ein gwraig wadd oedd Angela Skym o Landdarog, athrawes sydd

wedi ymddeol ond sy'n ymddiddori mewn hetiau. Daeth â'i chasgliad eang o hetiau i ddangos i'r aelodau ac roedd gan bob het ei stori ddiddorol! Cafwyd noson fendigedig a llawn hwyl.

Diolchwyd iddi gan y llywydd.

Enillydd y raffl, yn rhoddedig gan Bet Davies, oedd Jean Davies. Roedd y te yng ngofal Betty Davies a Beti Jacob.

Wyres fach

Llongyfarchiadau i Noel a Linda Davies, Cadwyn Aur ar ddod yn dad-cu a mam-gu am y tro cyntaf cans ganwyd merch fach, Cadi Mai i'w merch Helen a'i gŵr Chris yng Nghaerdydd.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Mair Davies, Green Acres a Tim a Gwyneth Davies a'r teulu, Llys Enwyn ar golli gŵr, tad, tad yng nghyfraith a thad-cu annwyl sef Wil Davies neu 'Wil Llaeth' fel y'i adnabyddir yn yr ardal. Bu'r angladd yn breifat yng Nghapel Aberduar, Llanybydder.

Ysgol Feithrin

Mae Ysgol Feithrin Llanybydder yn cynnal noson Bingo yn y Clwb Rygbi am 8.00 o'r gloch ar y 25ain o fis Tachwedd ac yna Ffair Nadolig yn festri Capel Aberduar ar y 13eg o fis Rhagfyr am 10.00 o'r gloch. Adloniant gan blant yr Ysgol Feithrin.

Diolch

Dymuna Mair, Timothy, Gwyneth a'r teulu ddiolch o galon i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd iddynt mewn gair a gweithred ar ôl marwolaeth gŵr, tad a thad-cu annwyl. Gwerthfawrogn eich caredigrwydd yn fawr iawn.

Yn yr ysbyty

Gobeithio bod Emyr Davies, Glynteg wedi dod adref o ysbyty Glangwili ar ôl treulio rhai diwrnodau yno ddiweddd mis Hydref - brysia wella.

Eglwys San Pedr

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyngor Plwyf Yr Eglwys (PCC) ar Nos Iau 4ydd o Fedi 2014 yn Festri'r Eglwys. Yn bresennol: Y Ficer Suzy Bale (Cadeiryddes); Diana Harper; Heather Jones; Val Wood (Warden y Ficer); Susan Evans (Warden y Pobl); Avril Jones (Trysorydd); Eurwyn Davies ac Eleri Thomas (Ysgrifenyddes).

Cynhaliwyd Taith Gerdded ar Nos Wener 15eg o Awst 2014. Cerddwyd dwy filltir dros Fynydd Pencarreg. Codwyd swm o £1,677. Diolchwyd yn arbennig i Mrs Heather Jones am gasglu'r swm anrhydeddus o £1,075 ar ei liwt ei hun! Hoffai aelodau'r Eglwys ddiolch i bawb a oedd wedi nodd i'r daith.

Penderfynwyd cynnal noson o Fingo ar nos Fawrth 18fed o Dachwedd 2014 yng Nghlwb Rygbi Llanybydder fel gweithgaredd codi-arian ar gyfer yr Eglwys.

Cynheliwyd gwasanaeth Sul y cofio ar Ddydd Sul 9fed o Dachwedd am 3.30pm er mwyn dwyn i gof y rai hynny a fu farw yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, yr Ail Ryfel Byd ac mewn brwydrau terfysgol ers hynny. Hefyd mae'n gyfle i nodi canmlwyddiant dechreuad y Rhyfel Byd Cyntaf.

Ar Nos Fercher 24ain o Fedi bu'r Cwrdd Diolchgarwch. Y Ficer Gwadd -Victoria Hackett o Lanbed, gynt o Lundain. Bu i'w phregeth gwmpasu Salm 23 sy'n sôn am yr Iesu fel y Bugail Da a'r arfer da o geisio dwyn rhannau'r Gair i gof, sef, "Yr Arglwydd yw Fy Mugail, ni bydd eisiau arnaf; Efe a wna i mi orwedd mewn porfeydd gwelltog; efe a'm tywys gerllaw y dyfroedd tawel".

Casglwyd bwydydd a'u rhoi yn rhodd ar gyfer Banc Bwyd Llanbedr Pont Steffan.

Bu i'r aelodau fwynhau cinio blasus yn y Llew Du ar ôl y Cwrdd Diolchgarwch.

Gobeithir ymgymryd â gwelliannau i do'r festri yn ystod y dyfodol.

Diolchwyd i Gareth a Heather Jones am osod mewn lle yr hysbysfwrdd newydd sydd bellach wedi ei godi o flaen yr Eglwys. Mae amserau'r Gwasanaethau yn cael eu cyhoeddi ar yr Hysbysfwrdd.

Rydym yn cofio mewn gweddi am aelodau'r Eglwys sydd heb fod yn teimlo'n hwylus a heb fod yn medru mynychu'r Eglwys cyn amled ag o'r blaen.

Mae Mrs Rachel Anne Thomas (gynt o'r Hafod) wedi dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Gwerthfawrodd ymweliadau cymdogion a ffrindiau dros gyfnod o sawl diwrnod ac fel canlyniad bu'n achlysur anghofiadwy. Diolch yn fawr!

Conebiaeth

CLONC

Yn 1914 daeth dros 2,000 o ffoaduriaid o Wlad Belg i Brydain i geisio am loches. Clustnodwyd tŷ sylweddol yn Llanbedd ar gyfer 15 ohonynt a chasglwyd arian i'w cynnal.

Ceir yr hanes yn y gyfrol Cymry'r Rhyfel Byd Cyntaf gan Gwyn Jenkins (Y Lolfa) Mae ystadegau'r Rhyfel Byd Cyntaf yn frawychus: dros 8 miliwn yn cael eu lladd a thua 21 miliwn y cael eu clwyfo. Roedd 272,000 o Gymry yn aelod o'r lluoedd arfog a lladdwyd rhwng 30,000 a 35,000 ohonynt.

Mae'r ystadegau'n ddadlennol ond y tu ôl iddynt mae hanes personol o alar a balchder, dycnwch ac anobaith, a brawdgarwch a chasineb. Dyma yw cynnwys y gyfrol hon - hanes profiadau dros 180 o unigolion o'r cyfnod wedi'u plethu'n gronolegol mewn 33 pennod, gyda phob pennod yn dechrau gydag esboniad o'r cefndir. Ceir hefyd ffotograffau o rai o'r unigolion yn ogystal â lluniau trawiadol o'r brwydro a chanlyniadau'r brwydro.

Dyma'r unig gyfrol yn yr iaith Gymraeg sy'n rhoi darlun cynhwysfawr am gyflafan Y Rhyfel Mawr a hynny o'r persbectif Cymreig. Mae'n gyfrol werthfawr i'w thrysori am y Cymry a fu'n rhan o ddigwyddiadau mwyaf erchyll, cynhyrfus a dylanwadol y byd.

Yn anrheg Nadolig delfrydol, mae Cymry'r Rhyfel Byd Cyntaf ar gael yn eich siopau lleol, yn uniongyrchol gan wasg Y Lolfa, neu ar wefan gwales.com

Cymry'r Rhyfel Byd Cyntaf - Gwyn Jenkins (Y Lolfa)

£19.95. Clawr Caled

Gofynnir am
gyfraniad o

£5

yn unig er mwyn rhoi
neges o ddiolch ym
Mhapur Bro Clonc
os gwelwch yn dda.

£10
yn unig

yw pris hysbysebu,
a dim ond
£60 am ddeg ohonynt.

ysgrifennydd@clonc.co.uk



Pen-blwydd Hapus 40 Pobol y Cwm

Mae'n anodd cofio bywyd yng Nghymru heb yr opera sebon eiconig, Pobol y Cwm, ac eleni mae'n 40 oed! Nos Fercher, 16 Hydref, 1974 am 7.10 yr hwyr darlledwyd rhaglen gynta'r gyfres ac mae'n rhyfeddod ei bod yn dal i'n diddanu yn 2014. I gyd-fynd â dathlu'r deugain, cyhoeddwyd llyfr arbennig gan Wasg Gomer, Pobol y Cwm Pen-blwydd Hapus 40, gan Lowri Haf Cooke, un o ffans mawr y gyfres.

Meddai Lowri - "Pan o'n i'n i tua wyth oed, byddai fy chworydd iau a minnau'n mynd i'r gwely'n eitha cynnar, ond byddai Mam yn galw'n dawel arna i i ddod nôl lawr llawr i wyllo Pobol y Cwm... Bu clecs a helyntion cythryblus trigolion Cwmderi yn gefndir i fy ieuenctid ac mae sgandalau'r Cwm wedi fy syfrdanu dros y degawdau, a dyna sy'n dal i fy nenu i wyllo hyd heddiw. Dathliad o'r gyfres fel y mae hi heddiw yw'r gyfrol, a'r cymeriadau presennol yn borth i lwybrau'r cof."

Bu'r ffotograffydd Emyr Young, yn ogystal â Lowri, yn ymweld â chriw Pobol y Cwm yn y stiwdio ym Mhorth Teigr, Bae Caerdydd dros rai misoedd er mwyn hel y wybodaeth a'r lluniau niferus a ffrwyth y cyfan yw'r llyfr deniadol a difyr Pobol y Cwm Pen-blwydd Hapus 40. Cawn gwrdd â thrigolion presennol Cwmderi a'r actorion sy'n eu portreadu nhw, yn ogystal â chwrdd â rhai o gymeriadau mwyaf cyfarwydd a phoblogaidd y Cwm dros y degawdau.

Mae gan bawb eu hatgofion am helyntion a chymeriadau'r Cwm, yn cynnwys actorion presennol y gyfres. Meddai Llinor ap Gwynedd (Gwyneth) "O'dd y criw ffrindie coleg i gyd yn ei gwyllo hi yn y lolfa - o'n i'n dwlu ar gymeriad Llew." Yn ôl Mark Flanagan (Jinx) "O'n ni fel teulu'n gwyllo'r gyfres o hyd, bob nos; roedd o'n rhan o'n routine ni. O'n i'n licio Mark."

Pennaeth drama'r BBC ddeugain mlynedd nôl, John Hefin, a'r dramodydd Gwenlyn Parry gafodd y syniad gwyh i fynd ati i lunio opera sebon Gymraeg. Meddai Gareth Lewis (Meic Pierce) "Dw i'n meddwl bod y gyfres wedi uno'r genedl mewn llawer ffordd: yn ieithyddol yn un peth, nid yn unig y Cymry Cymraeg ond y di-Gymraeg, a'r rhai sy'n dysgu'r iaith. Yn ôl Emyr Wyn (Dai) "Mae'n feicrocosm o Gymru...Y'n ni i gyd yn dod â gwahanol bethe mewn i'r gyfres, ac ma popeth yn mynd i'r pair. A dyna pam ma'r gyfres wedi bod mor boblogaidd. Dyw pobl bellach, ar wahân i ambell adolygydd, ddim yn becco faint o gogs sy 'na neu bod 'na acenion o bobman yn ne Cymru.

Dyw e ddim yn bwysig." Mae Jeremi Cockram (Siôn) yn credu bod y gyfres yn chwarae rhan bwysig yn niwylliant Cymru, "Alla i ddim meddwl am unrhyw beth arall, heblaw canu'r anthem cyn gêm ryngwladol yn Stadiwm y Mileniwm falle, sy'n ein huno ni fel cenedl - siaradwyr y ddwy iaith - ac sy'n neud i bobl deimlo'n fwy Cymreig.

Yn ôl Jonathan Nefydd (Colin) "Ma Pobol y Cwm yn sefydliad - ma fe'n rhan annatod o'n DNA ni fel Cymry."

Nid lleisiau a lluniau'r actorion yn unig sydd yn y llyfr oherwydd cawn gip ar waith Babs Roberts ac Eirioes Elfyn yn yr adran goluro a'u sylwadau am y cymeriadau. Wrth sôn am Maria Pride (Debbie) meddai Babs "Ma'r colur a'r dillad a'r bling yn cyfleu pa fath o hwylie sy arni. Os gweli di lai ohono, ti'n gwbod bod hi'n eitha isel, ac os gweli di lot ohono, ma hi'n teimlo on top form. Yn yr adran wisgoedd mae pob dilledyn, pob darn o emwaith, pob het, esgid, cot, sgarff a maneg yn cael eu cadw. Mae'r tîm yn trafod delwedd pob cymeriad newydd ac unrhyw newidiadau i'r cymeriadau eraill gyda'r cynhyrchydd cyn dechrau cynllunio gwisgoedd ar eu cyfer. Meddai Bethan Charles, yr uwch-arolygydd gwisgoedd "Mae'r actorion yn mynd yn hoff o'u gwisgoedd yn aml iawn, ac maen nhw'n ofergoelus, felly os oes rhywbeth yn digwydd i'r dilledyn, maen nhw'n gallu ypsedio. Mae lot fawr o wisgoedd gan rai ohonyn nhw...weddes i wrth Emily Tucker (Sioned) fod ei wardrob hi'n llenwi hanner hyd y storfa!"

"Mewn opera sebon mae angen ychydig o dywyllwch ac eitha lot o ysgafnder...ma'n rhaid bod yn ofalus iawn wrth droedio'r ffin rhwng y ddau beth" yn ôl Richard Lynch (Garry). I gadw'r gyfres yn gyfoes a pherthnasol ymdrinnir â nifer o bynciau anodd bywyd, profiadau y gall gwylwyr uniaethu â nhw. Priodasau'n chwalu a phroblemau teuluol, marwolaeth yn y crud, alcoholiaeth, llofruddiaeth, rhywioldeb, salwch fel canser neu OCD - dyna rai yn unig i chi. Nid yw'r gyfres yn ofn mentro ac meddai Terry Dyddgen Jones "Fel cynhyrchydd ar y pryd, ro'n i'n eithriadol o falch o gyflwyno stori canser y ceilliau Hywel, a'r modd y deliwyd â hynny. Roedd hyn cyn i unrhyw un arall wneud y stori mewn opera sebon, ac ro'n i'n hapus â'r ffordd ymatebodd Andrew Teilo i ddatblygiad y stori, a Hywel fel tase fe'n cuddio rhywbeth oddi wrth Cassie a'r gynulleidfa."

O ddyddiau Magi Post, Harri Parri a chartref Brynawelon at Reg a Megan a helyntion tafarn y Deri at drafferthion y Joneses a'r Monks a fferm Penrhewl - dyma daith deugain mlynedd ac mae'r daith yn parhau. Cyn dyddiau S4C, sicrhodd Pobol y Cwm ei le fel conglaen gwyllo'r Cymry gan ddenu miloedd o wylwyr bob nos. Mae'n drysor cenedlaethol, felly dathlwyd y pen-blwydd gyda'r llyfr!

Wyt ti am gymryd rhan mewn holiadur ar gyfer pobl ifanc?

Bydd modd i bobl ifanc gymryd rhan mewn holiadur anferth, gyda'r pwrpas o ddarganfod beth mae pobl ifanc Cymru heddiw yn ei hoffi.

Mae'r holiadur yn rhan o wythnos 'Tro Ni' ar gyfer S4C. Bydd yr wythnos yn digwydd 17-23 Tachwedd 2014. A chaiff pobl ifanc gyfle yn ystod yr wythnos i gyflwyno a chynhyrchu rhaglenni. Bydd amserlen lawn o raglenni ar gyfer pobl ifanc rhwng 15-18 hefyd.

Bydd yr holiadur yn gofyn amryw o gwestiynau i bobl ifanc rhwng 15-18 oed. Nod yr wythnos ydi rhoi llais i bobl ifanc roi eu barn ar bob mathau o bethe sy'n eu diddori neu'n eu poeni nhw. Bydd yr holiadur yn cynnwys cwestiynau ynghylch diddordebau, profiadau, teimladau tuag at Gymreictod, bwyd a diod a pherthnasau. Os ydych chi rhwng 15 a 18 oed, gallwch gymryd rhan trwy ymweld â www.dymafi.tv <<http://www.dymafi.tv>>.

Bydd canlyniadau'r holiadur yn cael eu darlledu mewn rhaglenni dyddiol arbennig ar S4C yn ystod wythnos Tro Ni.

Mae Cwmni Da, ar ran S4C wedi bod yn ffilmio ar draws Cymru gan ofyn i bobl ifanc ymateb i'r holiadur. Ond mae S4C a Chwmni Da eisiau clywed gan nifer fawr o Gymry ifanc, felly os wyt ti rhwng 15-18 mae croeso i ti lenwi'n holiadur.

Cynllun Hyfforddi Cenedlaethol Mudiad Meithrin

Tybed a oes gan rai ohonoch ddiddordeb mewn ymgeisio i fynd ar gwrs gofal plant? Mae Mudiad Meithrin yn gweinyddu ei gynllun hyfforddi cenedlaethol ar draws Cymru trwy un o'i is-gwmnïau, Cam wrth Gam.

Mae lle i 200 o fyfyrwyr newydd ar y cwrs Diploma Lefel 3 CACHE mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant a fydd yn dechrau fis Ebrill 2015. Mae'r cynllun hyfforddi yma wedi profi'n boblogaidd iawn gan ei fod yn cael ei gynnig mewn cylchoedd meithrin, meithrinfeydd dydd neu ddosbarthiadau meithrin mewn ysgolion cynradd ar hyd a lled Cymru. Ers ei sefydlu yn 2004 mae Cam wrth Gam wedi hyfforddi dros 1,600 o fyfyrwyr sy'n eu galluogi i weithio gyda phlant yn y blynyddoedd cynnar (0 - 7 oed).

Mae'r cwrs yn para am flwyddyn ac yn cael ei gynnal yn ystod oriau ysgol (16 awr yr wythnos) ac yn ystod tymor ysgol yn unig (sy'n hynod o ddefnyddiol os oes gan fyfyrwyr blant ifanc oed ysgol!). Bydd y myfyrwyr yn cael eu hasesu yn y gweithle am ddwyawr bob mis gan aseswyr cymwys, a bydd disgwyl iddynt fynd i 6 gweithdy yn ystod y flwyddyn.

Yn wahanol i lawer o gyrsiau, nid oes rhaid talu am fynychu'r cwrs yma a byddwch yn derbyn yr holl adnoddau addysgol e.e. llyfrau'r cwrs, dvd a.y.y.b am ddim. Byddwch yn derbyn grant hyfforddi am fynychu'r cwrs.

Ar ôl llwyddo yn y cwrs a chymhwyso byddwch yn gallu ymgeisio am swyddi amrywiol gyda phlant ifanc e.e. arweinydd neu gynorthwy-ydd cylch meithrin, rheolwr, dirprwy reolwr neu gynorthwy-ydd mewn meithrinfa ddydd, cynorthwy-ydd dosbarth mewn ysgol gynradd, aweinydd neu gynorthwy-ydd clwb ar ôl ysgol, neu arweinydd cylch chwarae.

Y dyddiad cau ar gyfer rhoi eich cais yw 23 Ionawr, 2015.

Beth am roi cynnig arni?

Am wybodaeth bellach, ewch i'n gwefan www.camwrthgam.co.uk, neu ebostiwch post@camwrthgam.co.uk, neu ffoniwch 01970 639601.

Annwyl Gyfeillion

A oes modd i chi gyhoeddi ein bod fel Llyfrau Llafar Cymru yn ymweld â'ch ardal chi eleni?

Pwrpas y daith yw codi proffil ein gwasanaeth gan obeithio y down i adnabod rhai deillion a rhai sy'n cael trafferth i ddarllen print a chynnig y cyfoeth o ddifyrrwch sydd ar gael gennym, am ddim, ar gwyno ddisg neu gaset.

Eisoes buoch yn ddigon caredig i gynnwys hysbysebion oddi wrthym. Nawr a fedrwyd hysbysu eich darllenwyr ein bod yn ymweld â Llanbedr Pont Steffan ar Dachwedd 26, 2014

Plant Ysgol Bro Pedr fydd yn cymryd rhan mewn ymarferiad a alle olygu pentwr o lyfrau sain newydd i blant a phobl ifanc sydd â phroblemau gweld. Y syniad yw bod plant iau a phlant hŷn yr ysgol yn dewis eu hoff lyfr ac yn dod i festri capel Brondeifi i recordio ar gyfer Llyfrau Llafar Cymru. Rydym yn ffodus bod siop y Smotyn Du â chysylltiad agos â'r festri a bod y Parchedig Goronwy Evans yn awyddus i weld datblygiad yn yr hyn sydd ar gael i'r ifanc yn y maes pwysig hwn.

Un o olygyddion dawnus Gwasg Gomer, Elinor Wyn Reynolds fydd yn arwain trafodaeth gyda'r disgyblion hŷn yn ystod sesiwn y prynhawn rhwng 1 a 3 o'r gloch. Y gobaith yw y bydd y plant a'r bobl ifanc yn mwynhau'r profiad ac yn mynd ati i recordio llyfre yn yr ysgol i innau eu dosbarthu wedyn.

Sulwyn Thomas (Cadeirydd Llyfrau Llafar Cymru)



Enw: Gethin Hatcher
Oed: 23
Pentref: Gorsgoch
Gwaith: Trydanwr peilons gyda Western Power
Partner: Sara
Teulu: Dad- Geraint, Mam- Eiddwen, Chworiydd- Enfys a Gwawr

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
Enfys yn ripo bean bag fi dros y llawr i gyd a gath hi row gyda Dad!

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.
Postman Pat.

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
Cwrteisi yn costi dim!

Taset ti'n gallu mynd nôl mewn amser, beth fyddet ti'n dweud wrth dy hun yn 16 oed?
Stica yn y coleg!

Y CD cyntaf a brynast di erioed?
Bob the builder - y sengl.

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?
Athro.

Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?
Cwato yn yr atic wrth Mam a Dad (am ddwy awr).

Y peth mwyaf rhamantus a wnaeth rhywun i ti erioed?
Dim wedi digwydd to, dal i ddisgwyl!

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Gwylie sgio a sosialiso gyda teulu a ffrindie.

Beth yw dy lysenw?
Hatch.

Pwy yw dy arwyr?
Dadi.

Beth yw dy arbenigedd?
Bach o all rounder.

Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?
Cael digon o awyr iach a gweld ardaloedd gwahanol.

Beth yw'r peth gwaethaf am dy swydd bresennol?
Amser stormydd pan ma pawb yn y tŷ yn cwoto, ni mas yn gweitho.

Y peth gorau am yr ardal hon?
Caredigrwydd y gymuned.

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
Bach yn bell o bobman ar adegau.



Pa mor wyrdd wyt ti?
Eitha brown a gobitho cal mwy o liw ar y gwylie cyn hir!

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?
Welsh.

Pa fath o ddeddf hoffet ti weld y Cynulliad yn ei phasio?
Ail edrych ar ble mae arian y talwr treth yn mynd!

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Bwco gwylie sgio i teulu fi a teulu Sara

Beth sy'n codi ofn arnat?
Clefydau.

Beth oedd y celwydd diwethaf i ti ddweud?
Dysges i beido â dweud celwydd, achos ma fe'n dala lan da chi go gloi!

Ble oedd y lle mwyaf annisgwyl i ti ddiuhuno ynddo yn y bore?
Tu ôl car yn show Llandysul a rhywun arall yn gorfod ffono Mami i ddod i hol fi!

Am beth wyt ti'n breuddwydio?
Breuddwyd diwedddara yw fi a Elin Lifestyle yn styc ar Megaphobia yn mynd rownd a rownd!

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?
Pasio prentisiaeth.

Ac yn bersonol?
Ennill hanner awr adloniant gyda'r CFfi yn Sirol a cael fy enwi fel un

o'r actorion gore'!

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n bert / i gadw'n gryf?
Mynd i'r gym 6 nosweth yr withnos a rhedeg 20 milltir cyn gwaith bob bore!!

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?
I drin pobl fel byddet ti eisiau cael dy drin

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.
Genedigaeth a cwrdd â Sara

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Golygus, galluog a phert!

Pa gar wyt ti'n gyrru?
Renault Megane

Beth yw dy hoff wisg?
Shorts a t-shirt neu dim byd- gadel popeth yn rhydd gan bod y gwaith yn meddwl bo fi lan polyn a popeth yn dynn uffernol.

A'th hoff adeilad?
Penllain!

Beth yw dy ddiod arferol?
Squash gwan iawn neu Strongbow.

Beth yw cynnwys dy oergell di?
Ma un da fi ond heb ddechre llanw fe to, bydd siod lot o gig yndo fe bydde ni'n meddwl!

Beth yw dy hoff arogl?
Smell newydd dorri porfa.

Sut wyt ti'n ymlacio?
Penwythnos bant o'r gwaith!

Pa wefan wyt ti'n ymweld â hi fwyaf aml?
E-bay

Sawl ffrind sydd gennyt ti ar facebook?
Dim cliw, sain nabod hanner nhw!

Hoff gân ar dy i-pod?
Frozen - let it go!

Pa raglenni sydd ar dy Sky+?
Top Gear a Celebrity Juice!

Sawl tectst y dydd wyt ti'n hala?
Gallu altro - o 2/3 yw'r cyffredin ond lan at 50 amser prysura yn y clwb!

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?
Sara yn gweud - codi sêd y toilet lan cyn dechre a'i roi lawr ar ôl bennu!

Pa gerddoriaeth yr hoffet ti yn dy angladd?
Sai'n gobitho marw am sbel ond fi'n joio canu'r emyn Rachie!

Beth fyddet yn ei wneud pe na byddet yn gwneud y gwaith hwn?
Dim idea ond no-way fyddde ni ar y dôl.

Ar beth y gwnest orwario fwyaf?
Y tŷ newydd a hot tub!

Pwy oedd y dylanwad mwyaf arnat ti?
Y teulu.

Y gwyliau gorau?
Teithio Seland Newydd gyda Aled!

Pa dri lle yng Nghymru yr hoffet ymweld â nhw cyn dy fod yn hanner cant?
Credud bo fi di gweld pobman!

Pa dri pheth yr hoffet ti wneud cyn dy fod yn ddeugain?
Ennill loteri, teithio'r byd a chadw iechyd!

Unrhyw dalentau cudd?
Hedfan helicopter!

Pa sioc alli di roi i ddarllenwyr Clonc amdanat ti dy hun?
Bo fi bach yn competitive!

Beth yw'r peth diwethaf wyt ti'n 'neud cyn mynd i'r gwely?
Brwsio dannedd.

Ble fyddi di mewn deng mlynedd?
Byw yn Penllain a wedi datblygu yn y gwaith gobitho!



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Shw mae? Ydych chi gyd wedi mwynhau eich gwyliau hanner tymor? Do, gobeithio. 'Dyw crwbanoed byth yn cael gwyliau – mae pob dydd yr un peth i ni. Wel mae'r hydref wedi cyrraedd a'r dail i gyd yn syrthio o'r coed nawr – digon o le i fi chwarae a chuddio – a chi hefyd falle!

Buodd sawl un ohonoch chi'n brysur iawn yn lliwio llun fy ffrind Ben yn cuddio yng nghanol y dail y mis diwethaf. Diolch yn arbennig i Morgan Rees o Gaerfyrddin sydd ond yn ddwy oed ac i Holly Ann Davies o Graig Cefn Parc am luniau bendigedig. Ond enillydd y mis hwn am lun lliwgar a thaclus dros ben yw Betsan Gwladys o Henbant, Llangeitho, Tregaron. Da iawn ti Betsan!

Mae'r ffeiriau wedi cyrraedd ein trefi ni erbyn hyn felly beth am fynd ati i liwio llun o rai o'm ffrindiau yn cael hwyl ar y ceir bach. Dw i'n edrych ymlaen i dderbyn eich lluniau gwych y mis hwn eto. Cofiwch eu danfon mewn da bryd erbyn **dydd Llun, Tachwedd 24ain**.

Hwyl am y tro



Enillydd
y mis!

Betsan
Gwladys



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne



MERTHYR CELER A MERTHYR GWENOG (68)

Y tro diwethaf buom yn trafod yr anawsterau sydd ynghlwm wrth enw Merthyr: pentref bychan i'r gorllewin o dref Caerfyrddin.

Anawsterau o fath gwahanol sy'n ein hwynebu wrth drafod yr enwau Merthyr Celer a Merthyr Gwenog: dau enw diflanedig, y naill yng ngogledd Sir Gaerfyrddin a'r llall yng Ngheredigion.

Mae Merthyr Celer yn perthyn i ddosbarth o enwau, lle y mae'r elfen 'merthyr' wedi'i disodli gan 'llan'. Enwau eraill sy'n perthyn i'r dosbarth hwn yw Merthyr Machen > Llanfaches, Merthyr Dingad > Llanddingad, Merthyr Tegfedd > Llandegfedd (y tair enghraifft o Sir Fynwy); ceir amryw enghreifftiau ym Môn yn ogystal, ac o leiaf un yn Swydd Henffordd. Yn y rhan fwyaf o lawer o achosion mae'n ymddangos bod y newid 'merthyr' > 'llan' wedi digwydd yn ystod y ddeuddegfed ganrif neu yn y drydedd ganrif ar ddeg. Byddai hynny wedi gallu digwydd pan fyddai'r gwahaniaeth ystyr rhwng 'merthyr' a 'llan' wedi pylu.

Ond yn achos Llangeler, mae pethau'n wahanol: mae ffurfiau 'merthyr' yn digwydd tan y bymthegfed ganrif (1418) a dyw 'llan' ddim yn disodli 'merthyr' tan yr 16g (1532). Anodd yw egluro'r rheswm am hyn.

Yn yr 17g roedd Ffynnon Geler yn Llangeler yn gysegrfan iacháu enwog a dywedir ei bod wedi'i chysegru i Celer Ferthyr. Yn ôl Edward Lluyd (c.1660-1709) âi'r cleifion i orwedd ar y Llech yn y fynwent ar ôl iddynt ymolchi yn y ffynnon; petaen nhw'n llwyddo i gysgu, bydden nhw'n yn sicr o iachâd; pe na bydden nhw'n llwyddo i gysgu, doedd dim sicrwydd o ddim byd o gwbl. Gadawai'r rheini a gâi iachâd eu ffynnuau baglau yno.

Dyma'r unig enghraifft o Celer fel enw personol yng Nghymru. Mae'n bosibl fod yr enw Celer wedi'i fenthycu naill ai o'r enw sy'n tarddu o'r Lladin 'celer' sy'n dynodi 'buan, bywiog'; mae'n ffurf sy'n ymddangos ar amryw arysgrifau Rhufeinig ym Mhrydain

Posiblirwydd arall yw bod yr enw Celer wedi tarddu o'r enw personol Lladin 'Celerius'.

MERTHYR GWENOG

Mae'r enw Merthyr Gwenog yn digwydd mewn siatr o'r 13 ganrif sy'n cofnodi cytundeb am diroedd yng ngorllewin Cymru rhwng Maelgwn ap Rhys, tywysog Deheubarth, ac Esgob Tyddewi. Coffeir Gwenog yn unig yn Llanwenog yn ne Ceredigion ac, o bosibl, roedd unrhyw genhadaeth yn genhadaeth leol. Mae enw Gwenog o Lanwenog yn digwydd chwe gwaith mewn un fersiwn o Gyfraith Hywel Dda ac mae galw ar y seintiau yn anghyffredin iawn yn llawysgrifau'r Gyfraith. Digwydd Gwenog yn enw ar ddyn yn y cyfnod cynnar ac mae'n bosibl mai gwryw oedd Gwenog ond bod canfyddiad ar sail yr elfen 'Gwen-' wedi ei thro'i'n ferch. Mae'r portread a geir o Gwenog ar ffenest liw ddiweddar yn eglwys Llanwenog yn awgrymu ei bod yn ferch, yn wryf ac yn ferthyr.

Mae'r nodiadau misol hyn ar enwau lleoedd yn cael eu paratoi dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org enwaulleoedd@gmail.com

Cyflwyno sieciau hael i achosion da



Criw Cneifio Llambled yn trosglwyddo sic am £400 yr un at Sefydliad y Galon a Chanolfan y Bont, Llambled. Casglwyd yr arian yn Cneifio Llambled a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf ar Fferm Capeli.



Gwendoline a Gareth Jones yn cyflwyno £181.05 yr un i dair elusen, sef elw Gyrfa Chwist a drefnwyd gan dad Gwendoline, y diweddar Jack Jenkins Gelly House Llanybydder. Cyflwynwyd yr arian i Betty Jones, Diabetes UK Cymru; Susan Evans, Ymchwil Cancr UK; a Dave Smith o Sefydliad Prydeinig y Galon. Diolchodd y tri am yr arian. Talodd y tri deyrnged i Jack am yr holl arian a wnaeth godi drwy drefnu Gyrfaedd Chwist dros y blyneddau tuag at y tair elusen.



Llongyfarchiadau i Ivor Williams a Gwynfor Lewis, Llanbed am gasglu £7320.00 tuag at y Llong Brydeinig drwy feicio o Lundain i Baris ddechrau Medi. Hoffai'r ddau ddolch i bawb am eu cefnogaeth a'u haelioni. Dyma lun o John Davies, Cydlynnydd Apêl y Pabi Coch ardal Llanbed yn derbyn y sic ar ran y Llong Brydeinig.

Ras Hwyl Llanwenog



Cynhaliwyd Ras Hwyl Ysgol Llanwenog ar fore dydd Sul, Hydref 19eg. Daeth rhedwyr o bell ac agos i gystadlu yno. Dyma'r canlyniadau:

Bechgyn 4 – 7 oed - 1. Roland Weedon, Cwrtnewydd. 2. Harri Rivers, Llanwenog. 3. Christopher Redwin, Cwmann.

Merched 4 – 7 oed - 1. Seren Davies, Dihewyd. 2. Hannah Ayonoadu, Llanwenog. 3. Charlie Wood, Cwmann.

Bechgyn 8 – 11 oed - 1. Jamie Jones, Sarn Helen. 2. Gwion Davies, Dihewyd. 3. Jiva Harrison, Cwmdy. **Merched 8 – 11 oed** - 1. Mollie Greenfield, Sarn Helen. 2. Jess McKay, Sarn Helen. 3. Evie McKay, Sarn Helen. 4. Sara Thomas, Sarn Helen.

Bechgyn – Uwchradd 1. Daniel Jones, Sarn Helen. 2. Thomas Willoughby, Sarn Helen. 3. Daniel Willoughby, Sarn Helen.

Merched – Uwchradd - 1. Grace Page, Sarn Helen. 2. Naiomi Howells, Sarn Helen. 3. Gwen Thomas, Sarn Helen. **Dynion – 2 filltir** - 1. Mark Rivers, Cwmsychpant. 2. Hywel Roderick, Cwmann. **Merched – 2 filltir** - 1. Katie McDermatt, Sarn Helen. 2. Helen Davies, Cwmann. 3. Karin Ayonoadu, Llanwenog. **Merched 16 – 39** - 1. Sian Roberts-Jones, Sarn Helen. 2. Gemma Hope, Cwmann. 3. Fiona Jones, Cwmann. **Dynion 40 – 49** - 1. Daniel Hooper, Sarn Helen. 2. Mike Davies, Sarn Helen. 3. Glyn Price, Sarn Helen.

Merched 35 – 44 - 1. Eleri Rivers, Sarn Helen. 2. Anwen Davies, Sarn Helen. **Dynion 50+** 1. Gordon Orme, Aberteifi. 2. Huw Price, Sarn Helen. 3. Tony Hall, Sarn Helen. **Merched 45+** - 1. Dawn Kenwright, Sarn Helen. 2. Jane Wilkins, Aberteifi. 3. Elen Page, Sarn Helen.

Eisteddfod C.Ff.I. Sir Gâr



Hysbyseb C.Ff.I. Llanllwni - 2il yn Eisteddfod Sir Gâr.



Grŵp dawnsio disgo Clwb Cwmann yn cipio'r wobwr gyntaf yn Eisteddfod CFfI Sir Gâr. Diolch yn fawr iawn i Elan Lewis a Rhian Harries am eu hyfforddi.

S4C



CARA FI

9.00

9 Tachwedd

Cyfres ddrama
gomedï newydd.

s4c.co.uk

S4C Clic f t

COED NADOLIG PARCYRHOS

Coed Nadolig safonol wedi eu tyfu ar dir Parcyrhos.

Profiad arbennig wrth ddewis eich coeden yn syth o'r cae.



Chi sy'n dewis, ni sy'n ei thorri.
Gwahanol fathau a maint ar gael.



Cysylltwch â
Gareth neu
Wendy

01570 434 393
07875 475 961

Ffair Nadolig Christmas Fayre

Dydd Sadwrn 29 Tachwedd
Saturday 29 November
12 - 4pm

Neuadd y Celfyddydau, Campws Llambed
Arts Hall, Lampeter Campus

Stondinau • Creffttau • Arddangosfeydd • Gweithgareddau
Grotto Siôn Corn £2

Stalls • Arts & Crafts • Exhibitions • Activities
Santa Claus Grotto £2

Croeso gynnes i hawb - A warm welcome to all

MI YW
MACMILLAN.
CYMRU
CANCER

PRIFYSGOL CYMRU
Y Drindod Dewi Sant
UNIVERSITY OF WALES
Trinity Saint David
LLANBEDR POINT STEDDFA LAMPETER

WE ARE
MACMILLAN.
CANCER SUPPORT

01570 424704
a.milcoy@tsd.uwtsd.ac.uk

mudiad
meithrin

arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

CamwrthGam

hyfforddiant blynyddoedd cynnar

Eisiau gweithio gyda phlant ifanc?

Dyma gyfle gwych ichi ennill cymhwyster **Diploma Lefel 3 CACHE** mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant yn y gweithle.

Mae'r cynllun hyfforddi cenedlaethol yma yn cael ei gynnal gan Mudiad Meithrin, trwy ei is-gwmni Camwrth Gam, o 1 Ebrill 2015 hyd 31 Mawrth 2016.

Gwahoddir siaradwyr Cymraeg a dysgwyr da i ymgeisio am le ar y cynllun hyfforddi rhan-amser yma a leolir mewn cylchoedd meithrin, meithrinfeydd dydd neu ysgolion cynradd ledled Cymru.

Am becyn gwybodaeth ffoniwch: **01970 639 601** neu e-bostiwch: post@camwrthgam.co.uk neu lawrlwythwch becyn gwybodaeth llawn o'n gwefan: www.camwrthgam.co.uk

Dyddiad cau: 23 Ionawr, 2015

Dilynwch ni: @camwrthgam f t

